



Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Aelodau
Hŷn
Gweithgar**



Tudalen 8

**Cogurdd
ifanc
talentog**



Tudalen 14

**Cadwyn
Cyfrinachau
yr Ifanc**



Tudalen 27

Llongyfarchiadau i bawb

Ben Lake AS



Tîmoedd Pêl-droed Ysgol Carreg Hirfaen yn nhwrnamet Pêl-droed Sêr Dewi a gynhaliwyd yn Nhregaron yn ddiweddar. Ennill oedd hanes tîmoedd y bechgyn a'r merched. Da iawn chi blant!



Go brin y bydd toriad gwawr 9 Mehefin 2017 yn mynd yn angof i lawer ohonom yng Ngheredigion, ac yn benodol i un teulu yn nhref Llambod. Dyma'r bore y cyhoeddwyd yr olaf o ganlyniadau Cymru yn yr Etholiad Cyffredinol – gyda datganiad taw **Ben Lake**, y gŵr ifanc 24 o Llambed, fyddai Aelod Seneddol nesaf y sir.

Wedi'i fagu yn Llambod, a gwreiddiau'i deulu yn ddwfn yn y sir, dyma daten o'r un rhych â ni'r Cardis. Cafodd ei addysg yn ysgolion y dref – yr un addysg uwchradd â'n Haelod Cynulliad, Elin Jones – ac aeth i astudio yn Rhydychen, cyn dychwelyd i Gymru. Bu'n gweithio i Elin Jones am gyfnod, a bydd nifer yn cofio'i frwdfrydedd a'i bersonoliaeth gynnes yn canfasio mewn etholiadau blaenorol yn y sir. Dyma ddyn ifanc carismatig, galluog, ond sydd â'i draed hefyd ar y ddaear.

Ymfalchiwn yn fawr yn ei lwyddiant, a dymunwn iddo'r gorau posib fel Aelod Seneddol ifanc Plaid Cymru.



Yn y gystadleuaeth Trefnu Blodau yn Rali C.Ff.I. Ceredigion aeth y garden goch i Elli Dafydd, CFFI Bro'r Dderi. Llongyfarchiadau Elli.

Rali C.Ff.I. Ceredigion



Brenhines y Rali, Esyllt Ellis Jones, Llangwryfon a Ffermwr Ifanc y Flwyddyn, Morys Ioan, Caerwedros a'u dirprwyon. O'r chwith: Steffan Nutting, Talybont; Angela Evans, Tregaron; Esyllt Ellis Jones; Morys Ioan; Elin Haf Jones, Llanwenog ac Aled Davies, Caerwedros.



Tîm Llanwenog yn ennill y gystadleuaeth 'Gwisgo i fyny' sef Hafwen Davies, Gethin Hatcher a Lois Jones.



Arddangosfa Prif Gylch C.Ff.I. Bro'r Dderi a ddaeth yn 2il.

Pob lwc i bawb sy'n cynrychioli
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Ceredigion a Sir Gâr
yn y Sioe Frenhinol ar ddiwedd y mis.



www.facebook.com/clonc360



[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@AnwenButten](https://twitter.com/AnwenButten)
Mehefin 25

Llongyfarchiadau i fy
nhad a Hari yn ennill
cystadleuaeth parau Sir
Ceredigion heddiw. Da
iawn.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@LlandysulPolice](https://twitter.com/LlandysulPolice)
Mehefin 24

Carnifal Llanybydder
heddiw! Dewch i
weud helo :) #NPT

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@MeganSarnau](https://twitter.com/MeganSarnau)
Mehefin 22

Dylan [@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) yn
cadeirio #CyfarfodCarwyn
Prif bynciau: Trafnidiaeth
(ailagor rheilffordd)
Addysg/swyddi (prifysgol
Llanbed ac Aber) ...

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@cffillanwenog](https://twitter.com/cffillanwenog)
Mehefin 18

Waw! Na beth o'dd
diwrnod. Diolch am
gefngoi! DA IAWN I
BAWB! Y clwb yn dod
at ei gilydd i godi arian
at [@alzheimerssoc](https://twitter.com/alzheimerssoc) NI
WEDI NEUD HI!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@LlanybydderRfc](https://twitter.com/LlanybydderRfc)
Mehefin 9

Award winners.
Da iawn bois.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@ElinCeredigion](https://twitter.com/ElinCeredigion)
Mai 28

Cefnogi Y Daith
Tractorau yn Nrefach
bore'ma. 89 o dractors.
Da iawn pawb a chodi
arian i

[@BloodBikesWales](https://twitter.com/BloodBikesWales)
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Gorffennaf a Medi Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llambed Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325

Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041

Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349

e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambed 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Proffwydo haf prysur

Mae'n ddigon posib fy mod i yn y job rong. Proffwyd ddylwn i fod! Wel, fe wnes i broffwydo un peth cywir o leiaf – yn rhifyn mis Mai fe ddweddes i hyn wrth sôn am etholiadau:

“Un peth ddweda'i i gloi, tra'n ceisio aros yn ddiuedd - mae angen i ni gadw'n llygaid ar ddyn ifanc o ardal Clonc sy'n enw newydd i fyd lecshwn. Heb roi pwysau annheg ar ei ysgwyddau, gallwn ni ddisgwyl pethe mawr oddi wrtho yn y dyfodol. Dim ond gobeithio na fydd y cecru a'r towlu baw sy'n gallu digwydd mewn ymgyrchu etholiadol yn ddigon i'w ddanto.”

Erbyn hyn, gallwn longyfarch Ben Lake AS ar ei gamp – llongyfarchiadau gwresog iddo. Rydym fel ardal yn browd iawn ohono.

Felly, beth nesaf? Wna' i ddim mentro proffwydo pethe mawr na bach i'n bro na'n sir na'n cenedl! Ond fe wna' i ragweld y bydd bwrlwm o weithgareddau unwaith yn rhagor dros yr haf i'n diddanu yn ardal papur bro Clonc. Bydd rhifyn mis Medi unwaith eto'n llawn lluniau llwyddiannau mewn sioeau ac eisteddfodau a charnifalau. A da fydd hynny; gweld eich bod chi yn cefnogi'n digwyddiadau lleol, a phawb o bob oed yn cael cyfle i gymryd rhan a chystadlu a datblygu sgiliau.

Am flas o'r arlwy sydd o'n blaen, mynnwch olwg ar Ddyddiadur Clonc. A chadwch lygad hefyd ar y cyfrif Facebook a Twitter, yn ogystal â gwefan Clonc360.

Mwynhewch yr haf!

Cloncen

Cynghrair

Cynghrair Ward Llanwenog

Cafwyd ymateb da i'r holiadur a gafodd ei ddosbarthu'n ddiweddar i gasglu barn pobl leol am ddyfodol tir ac adeiladau ysgol Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd.

Daeth nifer o syniadau ac awgrymiadau gan bobl ar draws yr ardal a pharodrwdd ac awydd hefyd gan sawl un i fod yn rhan o unrhyw waith cynllunio pellach ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Gynghrair eisoes wedi cyflwyno adroddiad yn crynhoi prif gasgliadau'r ymgynghoriad i'r ddau Gyngor Cymuned ac yn cwrdd â chynrychiolydd y Cyngor Sir ddechrau mis Gorffennaf i drafod ymhellach.

Dyw hi ddim yn rhy hwyr i chi fynegi barn neu gynnig syniad. Bydd cyfle i wneud hynny adeg Diwrnodau Agored Ysgol Llanwenog a Chwrtnewydd ar Orffennaf 15 ac 16.



Nans Davies yn cyflwyno siec i Mrs. M. Fraine, Minyllan, Llanwenog a enillodd y wobr o £40 wrth ymateb i holiadur 'Dyfodol ein hysgolion' a drefnwyd gan Gynghrair Ward Llanwenog.

Sialens 60



Ddydd Sadwrn Mehefin y 7fed daeth criw o aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau C.Ff.I. Llanwenog at ei gilydd i seiclo, nofio, rhwyfo, rhedeg, cerdded a thynnu tractor dros gyfanswm o 60 milltir o amgylch yr ardal.

Llwyddodd llond llaw o bobol ffit a dewr i gwblhau pob cam o'r daith, er gwaetha'r gwres llethol! Mi wnaeth pawb joio mas draw, ac erbyn y diwedd roedd tua 60 ohonon ni yn tynnu tractor vintage 60 oed lan rhiw Crugmaen.

Erbyn hyn, ro'n ni wedi codi swm sylweddol iawn o arian tuag at waith y Gymdeithas Alzheimer yng Nghymru. Ond dyw hi ddim yn rhy hwyr i'n noddni ni. Os am gyfrannu, siaradwch ag unrhyw un o aelodau neu gyfeillion y clwb neu ewch i'n safle Just Giving <https://www.justgiving.com/fundraising/gethin-hatcher>.

Yna, ddydd Sadwrn 1af Gorffennaf daeth cyfle i ymlacio a chyrraedd penllanw dathliadau'r 60 mewn Diwrnod Hwyl yng Nghaerwenog, Penffordd. Diolch i Dai a Wendy a'r teulu am eu croeso arbennig.

Daeth llond lle o aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau Clwb Llanwenog ynghyd gan ddechrau gyda thwrnament rownderi cyn bod 60 o aelodau a chyn-aelodau yn bwrw ati i gneifio 60 o wŷn Llanwenog o braidd enwog Huw Evans, Alltgoch.

I orfffen y diwrnod, cafwyd ocsiwn fawr a chodwyd swm sylweddol i'r Clwb. Diolch i bawb am eu cwmni a'u cefnogaeth wrth gloi blwyddyn y dathlu mewn steil.

Byddwn ni'n cyhoeddi'r cyfanswm yn rhifyn nesaf Clonc.



GORFFENNAF

- 7 Cinio Trydydd Byd o dan nawdd Cymorth Cristnogol yn Neuadd yr Eglwys, Llambled rhwng 12 – 1.30. Croeso cynnes i bawb.
- 7 Hufen, Mefys a Chân yng Nghlwb Bowlio Llanbed 7.00 y.h. gyda Chôr Cwmann tocyn £5 Elw tuag at Cancer DU a Chanolfan Gymraeg yr Andes yn Esquel.
- 7 Ras Hwyl Cwmann 5 ar Gae Pentref Cwmann am 6.30yh.
- 8 Prynhawn Agored Ysgol Llanwnnen.
- 8 Diwrnod Hwyl Llanllwni ar Gae Chwarae y pentref am 1.00 y.p. Carnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, stondinau a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.
- 8 Arwerthiant cist car yng Nghlwb Rygbi Llanbed gyda'r elw yn mynd tuag at Garnifal Llanbed – 9.00 – 2.00y.p.
- 9 Oedfa Ddathlu'r Parch Glan Roberts yn Noddfa am 2.30y.p.
- 9 Cyngerdd Cerddorfa Speelschare o Wlad Belg yn Eglwys Llanwenog am 5yp.
- 10 Noson gomedi yng Nghlwb Rygbi Llanbed am 8.00y.p. MC - Gary Slaymaker, gyda Phil Cooper o'r Rhondda a Dan Thomas o Abertawe.
- 13 Noson Goffi a Barbeciw blynyddol Eglwys Sant Luc, Llanllwni yn y Neuadd Gymunedol am 7.30y.h.
- 13 Recordio Talwrn y Beirdd yn Festri Shiloh, Llanbed.
- 14 Gig yr Urdd gyda Swnami, Calfari a Mellt yn Neuadd Fictoria, Llanbed am 8.00y.h.
- 14 Noson yng nghwmni'r Welsh Whisperer yng Nghlwb Pel-droed Llanbed am 8.00y.h.
- 15 Prynhawn o ddathlu yn Ysgol Llanwenog am 2.00y.p.
- 15 Totally Locally Llambled ar Sgwar Harford, Llambled rhwng 11yb a 2yp.
- 16 Prynhawn o ddathlu yn Ysgol Cwrtnewydd.
- 20 Glaston-Dderi yn Ysgol y Dderi, Llanybi 6 i 8yh.
- 22 Cneifio Llambled ar fferm Capeli gan ddechrau am 8.00y.b.
- 22 Gwasanaeth dathlu 300 mlwyddiant Eglwys Rhydybont, Llanybydder am 2.00y.p.
- 25 Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8yh. Yr elw tuag at Elusen Ysbyty Plant Arch Noa.
- 29 Ffair Fwyd Llanbed ar dir Prifysgol y Drindod Dewi Sant.
- 29 Arwerthiant cist car yng Nghlwb Rygbi Llanbed gyda'r elw yn mynd tuag at Garnifal Llanbed – 9.00 – 2.00y.p.
- 31 Helfa Drysor Cerdded, 6.00 yh Llyfrgell Llanbed

Digwyddiadau wythnos y plant yn ffenestri'r siopau dydd Llun 24 Gorffennaf tan ddydd Iau 03 Awst. Papurau o Panacea y Parlwr Pincio.

AWST

- 2 Helfa Drysor Cerbyd, 6.00 yh Rookery Llanbed
- 3 Cwis y Carnifal 8.00yh Clwb Rygbi Llanbed.
- 5 Carnifal Llanbed ar Gaeau Rygbi'r dref.
- 11 Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.
- 12 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 19 Sioe Gorsgoch.
- 26-28 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn 50 oed.
- 28 Sioe Bentref Llanfair Clydogau.
- 28 Derbyn Newyddion CLONC.

MEDI

- 6 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 9 Ffair Ram ar Gae pentref Cwmann.
- 11 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Felinfach.
- 16 Cyngerdd Mawreddog Dathlu 50 oed Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Theatr Felinfach. Artistiaid: Côr Canna, Steffan Rhys Hughes a Charlie Lovell Jones. Tocynnau o'r Theatr 01570 470697.
- 16 Pobl Cwrtnewydd People - Helfa Drysor ar droed am 2.00yp cwrdd yn festri Capel Seion. Lluniaeth ar gael.
- 17 Aberduar 275: Oedfa'r dathlu am 2.00y.p. te i ddilyn a Chymanfa Ganu am 6.00y.h. Croeso cynnes i bawb!
- 22 "Ladies Night" yn Neuadd Llanfihangel ar Arth. Mwy o fanylion i ddilyn.
- 30 Pobl Cwrtnewydd People - cyflwyniad gan Mr Simon Evans, Troedrhiw yn Festri Capel Seion am 7yh ar hanes plwyf Llanwenog trwy'r oesoedd.



Nos Wener 26ain Mai cafwyd cyfle i glywed llais hudolus a chaneuon newydd Lleuwen Steffan. Ar ôl ennill gwobr Albwm y Flwyddyn yng ngwobrau FR3 France gyda Tân aeth Lleuwen ymlaen i ennill Liet International am y gân orau yn Gijon 2012. Dyma oedd y tro cyntaf erioed i Lleuwen Steffan berfformio yn Theatr Felinfach. Cawsom glywed ambell emyn ac alaw werin yn ogystal â'i chaneuon gwreiddiol ac ychwanegwyd at y sain hyfryd gyda sain bâs dwbl Owen Lloyd Evans.

Yn rhan o'r gyfres o Nosweithiau Acwstig ac mewn partneriaeth y tro hyn gydag Urdd Ceredigion, cawsom gwmni'r hyfryd Al Lewis. Canwr a chyfansoddwr wedi ei eni ym Mhwllheli yw Al Lewis. Mae'n enw blaenllaw yn y sin pop Cymraeg a Saesneg ac mae wedi cyfansoddi nifer o ganeuon cofiadwy iawn. Mae hanes hir i gydweithio Urdd Ceredigion a Theatr Felinfach. Cynhelir nifer o ddigwyddiadau'r Urdd yma'n flynyddol megis Yr Ŵyl Offerynnol a'r Carnifalŵn, ond mae'r bartneriaeth ddiweddar hyn yn bartneriaeth sy'n cyd-drefnu gan gadw'r oedran ôl 16 fel prif ffocws. Mae wedi bod yn bleser hefyd cael cydweithio gyda Siân Elin Williams yn cyd-drefnu'r digwyddiadau; mae hi wedi bod yn gweithio am flwyddyn i'r Urdd ar brosiect Ieuencid a Chymuned.

Mae criw Hwyl a Hamdden wedi cael nifer o ddigwyddiadau dros yr wythnosau diwethaf ond un o brif ddigwyddiadau'r calendr yw'r Eisteddfod. Fe'i cynhaliwyd eleni ar brynhawn dydd Mercher, 14eg Mehefin a diolch yn fawr i Meryl Evans, Rheolwr Addysg Gymunedol, am feirniadu'r amrywiol gystadleuthau.

Yn hwyrach y prynhawn hynny, lansiwyd Gwerin-ffit – gweithgaredd ôl 16 sy'n cyfuno symudiadau gwerin, clocio a ffitrwydd. Mae'r sesiynau mewn blociau o 6 wythnos o 5:30yp – 6:15yh ac yn £24 am y bloc. Cysylltwch â Lowri Briddon am fwy o fanylion - lowri.briddon@ceredigion.gov.uk

Mae criw Dramatic sy'n Glwb Drama i ddisgyblion 7-11oed wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd pob tymor yng nghanolfannau Ysgol T Llew Jones, Ysgol Henry Richard a'r Gwndwn, Theatr Felinfach. Nos Fercher, 28ain o Fehefin cafwyd arddangosfa o'r gwaith maen nhw wedi bod yn ei gyflawni ar lwyfan Theatr Felinfach. Pinael y cyfan oedd cael y cyfle i berfformio'r cyfanwaith ar y llwyfan mawr i'w teulu a'u ffrindiau.



Mae criw creadigol Theatr Felinfach wedi bod yn brysur dros yr wythnosau diwethaf hefyd yn cydweithio gyda disgyblion o ysgolion Bro Teifi, Bro Siôn Cwilt a T Llew Jones yn paratoi cân i'w pherfformio yn ystod Gŵyl Nôl a Mlan. Mae'r geiriau gan Dwynwen Lloyd Llywelyn a'r gerddoriaeth gan Alun Bryn. Braf gweld y bartneriaeth rhwng yr Ŵyl a'r Theatr yn mynd o nerth i nerth.

Partneriaeth lwyddiannus arall wrth gwrs yw'r bartneriaeth sydd rhwng Theatr Felinfach a Theatr Gydweithredol Troed-y-rhiw ac mae pethau'n siapio ar gyfer y ddrama gerdd - 'Cneifio'. Mae'r criw wedi bod yn brysur yn sgwennu a sgriptio, felly cadwch y dyddiad 6 a 7fed Hydref.

Cynllunio a Sgriptio Panto

Oes diddordeb 'da chi mewn cyfrannu a datblygu stori newydd gyffrous, creu cymeriadau a chynllunio sgript?

Mae'r criw cynllunio a sgriptio yn awyddus i gael aelodau newydd, felly os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Ffion Medi.

Os na welsoch sioe **Teilwng yw'r Oen** ym mis Ionawr, dyma gyfle arall i weld cynhyrchiad gwefreiddiol Theatr Felinfach o'r sioe hynod lwyddiannus a lwyfannwyd yma ar ddechrau'r flwyddyn. Rydym yn bwriadu mynd â'r cynhyrchiad i Eglwys Gymraeg Canol Llundain yn yr Hydref.

Yn yr un ysbryd â Crowdfunding, rydym angen gwerthu digon o docynnau i'w gwneud hi'n bosib i'r daith ddigwydd, felly yn y lle cyntaf, bydd y tocynnau ar werth am gyfnod penodol er mwyn i ni weld a mesur y diddordeb.

Os oes diddordeb gennych ddod ar y daith gyda'r cast i Lundain, cysylltwch â Rhian Dafydd neu Nia Wyn Davies heb oedi; rhian.dafydd@ceredigion.gov.uk neu niawynmaesglas@gmail.com

Llanllwni

C.F.F.I. Llanllwni

Croeso nôl i chi y mis 'ma to i ddal lan gyda newyddion C.F.F.I Llanllwni. Llongyfarchiadau i Anwen a oedd yn cystadlu yn rhan o dîm Sir Gâr yn niwrnod gwaith maes Cymru a gafodd ei gynnal i fyny yn Ynys Môn ddiwedd mis Ebrill.



Betsan a Sioned Bowen yn fuddugol yn y coginio adran hŷn.

Ar y 13eg o Fai bu'r aelodau yn cystadlu'n frwd yn y Rali blynyddol, diwrnod sydd yn cael ei gyfri yn binacl ym mlynyddyn mudiad y Ffermwyr Ifanc. Daeth tri chwpan yn ôl i Lanllwni ar ddiwedd y dydd. Daeth Anwen ac Ifor i'r brig yn y beirniadu cobiau Adran D; Betsan a Sioned Bowen yn fuddugol yn y coginio adran hŷn, ac Arwel ac Anwen yn fuddugol yn y gystadleuaeth gyrru tractor. Daeth Arwel a Carwyn yn ail yn y gwaith coed hŷn; Anwen ac Owain yn ail yn y beirniadu gwartheg Limousin; a Dan ac Ifor yn ail yn y gystadleuaeth Sylwebaeth Fyw. Llongyfarchiadau mawr i bawb arall a wnaeth gynrychioli'r clwb ar y diwrnod, a diolch o waelod calon i'r holl hyfforddwy'r a wnaeth gynorthwyo'r aelodau mewn unrhyw fodd. Llongyfarchiadau i Anwen hefyd am ddod yn ail am darian buwch goffa Aled Howells, Sarnau, sef tarian sydd yn cael ei rhoi i'r aelod â'r marciau uchaf yn holl gystadlaethau barnu stoc y Sir trwy gydol y flwyddyn.



Pleser mawr i'r clwb hefyd oedd gweld un o'n haelodau hynaf, Siôn Evans, yn cael ei anrhydeddu yn Llysgennad y Sir am y flwyddyn sydd i ddod. Yn ogystal a Siôn, roedd dwy aelod arall o glwb Llanllwni ar y llwyfan yn seremoni'r

Llysgenhaddon, sef Anwen Jones, a gafodd ei hanrhydeddu yn Stocmon Hŷn y flwyddyn a Sioned Howells, sydd wedi ei dewis yn Aelod Iau Sir Gâr am y flwyddyn. Dymunwn fel clwb bob lwc i chi eich tri yn eich swyddi, a mwynhewch bob eiliad!

Cynhaliwyd ein Helfa Drysor blynyddol nos Wener y 19eg o Fai, dan ofal teulu HighView, sef enillwyr y llynedd. Roedd yn noson braf a heulog, a chafwyd taith hamddenol o gwmpas Maesycrugiau, cyn i bawb ymgynnull yn ôl yn Nhafarn Talardd am swper – ac wrth gwrs y canlyniadau holl-bwysig! Yn dod i'r brig eleni oedd 'Tîm Mamgu' - sef Marion, Siriol, Meryl

a Mair. Llongyfarchiadau i chi a diolch i garej Windy Corner am noddi'r wobr, sef taleb Diesel. Yn dod yn agos iawn, o fewn un pwynt, yn yr ail safle oedd tîm Arwel, Carwyn a Zac. Diolch i deulu Highview am baratoi'r noson, a diolch i John ac Ann am y swper blasus a'r croeso i orffen y noson.

Ar noson braf ddiwedd mis Mai cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Nghlwb Rygbi Castell Newydd Emlyn. Ar ôl y wledd flalus cafwyd crynodeb cyflawn o weithgareddau a llwyddiannau'r flwyddyn gan ein cadeirydd, Ifor. Ein gwestai gwadd am y noson oedd Miss Gwawr Lewis, a diolch iddi am ein diddori gyda'i haraith. Llywyddion presennol y clwb yw Alun ac Aileen Davies, Bryn y Coed, a diolch i Alun am ei eiriau addas ar ran y ddau.



Cyflwynodd Alun ac Aileen y darian i'r aelod gorau, ac enillydd y darian eleni oedd ein hysgrifenyddes, Catrin Evans. Gwnaed y diolchiadau gan ein is-gadeirydd, Arwel Jones. Diolch i bawb waneth ymuno â ni, yn aelodau, cyn-aelodau, rhieni a ffrindiau. Edrychwn ymlaen at eich cwmni eto ar hyd y flwyddyn nesa!

Yn noson chwaraeon Sir Gâr, fe fu rhai o'r aelodau yn cymryd rhan yn y cystadlaethau pêl-droed a pêl-rwyd. Llongyfarchiadau i Catrin Evans, Sioned Howells a Nia Davies a gafodd eu dewis i gynrychioli'r Sir yng nghystadleuaeth Cymru a gafodd ei chynnal yn Aberystwyth ar ddydd Sul y 25ain o Fehefin. Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y clwb yn cael ei gynnal nos Fawrth y 1af o Awst yn Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau. Cofiwch am ein Treialon Cŵn Defaid a Sioe ddydd Llun Gŵyl y Banc, Awst yr 28ain.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Enillwyr Clwb 100 mis Mehefin;
1af £15.00 Margaret James (rhif 17).
2il £10.00 Mary Davies (rhif 44)
3ydd £10.00 Anwen Thomas (rhif 101).

Cynhelir y Noson Goffi flynyddol - Gorffennaf 13eg am 7.30yh.

Rhifyn Medi yn y Siopau 7 Medi

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
28 Awst



Cinio blynyddol yng Nghlwb Rygbi Castell Newydd Emlyn.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAI,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbedr
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221



Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbedr

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwnciffwnci@hotmail.com

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Aeth aelodau Cyfnod Sylfaen yr Urdd i Gêmau Potes yr Urdd, Cylch Llanbedd gan fwynhau amrywiaeth o gêmiau a chwarae fel tîm.

Cawsom ddiwrnod o beidio â gwisgo gwisg ysgol, ond dod mewn gwisg yn ymwneud â ffermio, er mwyn helpu apêl Sir Gaerfyrddin i godi arian tuag at y Sioe Frenhinol. Gwnaeth pawb ymdrech dda.

Datblygu ein sgiliau chwaraeon rydyn ni'n ei wneud yn ein sesiynau Campau'r Ddraig tan wyliau'r haf.

Ymunodd Blynnyddoedd 5 a 6 yn Niwrnod y Llewod ym Mro Pedr fel rhan o ddathliad y Llewod yn Seland Newydd.

Aeth dau dîm o'r ysgol i gystadlu yn nhwrmament pêl-droed Llanfihangel ar arth – tîm dan 11 oed un noson a'r tîm dan 8 y noson ganlynol. Chwaraeodd y ddau dîm yn dda iawn gyda'r tîm ieuengaf yn ennill medalau am ddod yn ail. Da iawn chi.

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar gae chwarae'r pentref brynhawn Llun, Mehefin 19eg. Roedd yn braf gweld cynifer o rieni a ffrindiau'r ysgol wedi dod i gefnogi. Tîm Teifi enillodd y darian fawr. Enillwyd y tarianau am y sgôr uchaf oedd: Merch CA2 - Marigold, Bachgen CA2 - Tomasz, Merch y Cyfnod Sylfaen - Gwennan, Bachgen y Cyfnod Sylfaen - Caio. Diolch i Mathew a Marigold am gyfranu tarianau. Enillwyd y medalau am y sgôr uchaf ym mhob blwyddyn oedd: Bl 6 - Marigold, Bl 5- Tomasz, Bl 4 - Mared, Bl 3- Tudur, Bl 2- Caio, Bl 1- Gwennan, Derbyn - Erin, Meithrin - Elliw ac yn y Cylch Meithrin yr enillwyd oedd Tegwen a Megan. Diolch i'r Pwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol am drefnu'r raffl a diolch i Dave a Tracey'r Swyddfa Bost am roddi'r pop a creision i'w gwerthu. Diolch i Eric a Tom am fod wrth y gât ac i'r Cyngor Bro am ofalu bod y cae wedi ei baratoi.

Buon ym mabolgampau Cylch Pencader am ddiwrnod cyfan o rasys amrywiol. Gwnaeth yr ysgol yn arbennig o dda gan ddod yn fuddugol mewn nifer fawr o gystadlaethau unigol a thîm. Eleni, tro Ysgol Llanllwni oedd bod yng ngofal gwerthu lluniaeth i'r cyhoedd a'r raffl. Diolch i Bwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol am drefnu hyn a diolch i Ysgol Caerfelin am gael defnyddio'i chyfleusterau.

Yn rhan o'n gwaith Addysg Grefyddol buon ni'n ymweld â'r eglwys. Diolch i'r Ficer Susie Bale am ein tywys ni o gwmpas gan roi hanes yr eglwys ac ateb nifer o gwestiynau roedd y plant wedi eu paratoi. Bu'n fore addysgiadol iawn ac fe ddysgon ni lawer am yr eglwys.

Bu Mr. Jenkins o Ysgol Bro Pedr yn rhoi sesiwn wyddoniaeth



Hoffai Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Llanllwni ddiolch yn fawr iawn i Co-op Llanbedd am noddi'r bwyd ar gyfer ein mabolgampau ardal ym Mhencader. Yn y llun mae Lee, rheolwr cangen Llanbedd, a chydweithwyr ac Annwen Evans (Cadeiryddes) yn cynrychioli Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllwni.

i'r Adran Iau. Roedd yn sesiwn ddiddorol ac addysgiadol iawn.

Erbyn i'r rhifyn yma ymddangos byddwn wedi bod yn chwarae pêl-droed yn Llanwnnen.

Byddwn yn cymryd rhan yn Noson Goffi'r Eglwys nos Iau, Gorffennaf 13eg.

Gobeithiwn fynd ar ein trip ysgol i Fferm Folly Edrychwn ymlaen at weld yr anifeiliaid.

Ar ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â'n dau ddisgybl Bl 6 sef Mathew Williams a Marigold Smith ac yn dymuno'n dda iddynt pan fyddant yn dechrau eu haddysg ym Mro Pedr ym Mis Medi. Cofiwch alw nôl i'n gweld!

Cofiwch am y Diwrnod Hwyl sydd yn cael ei gynnal y Sadwrn yma , 8fed o Orffennaf ar gae chwarae y pentref am 1 o'r gloch. Bydd yna garnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, stondinau, barbiciw a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Mehefin – 1af - £10 – “Besi”, Manordeifi, Llanllwni. 2ail - £5 – Bethan Vernon, Maesteg, Llanfihangel ar arth. 3ydd - £5 – Iris Evans, Cefncoed Isaf, Llanllwni.

Pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd hapus i Ivy Evans, Aberdaudwr a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ystod y mis.

Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Cylch Meithrin Llanllwni

'Rydym yn parhau gyda'r thema 'Pobl a'u gwaith' tan yr haf. Mae'r plant wedi mwynhau dysgu am rôl y deintydd a sut fedrwn ni helpu i edrych ar ôl ein dannedd ac am ddiogelwch y ffordd, gan gynnwys croesi'r ffordd. Ym mis Gorffennaf byddwn yn ymestyn ein dealltwriaeth am waith gwahanol bobol wrth edrych ar swyddi sy'n bwysig ger ac ar y môr.

Ymunodd plant y Cylch gydag Ysgol Llanllwni yn ei diwrnod Mabolgampau ar y 19eg o Fehefin. Cawsom brynhawn llwyddiannus gyda'r haul yn gwenu'n braf. Da iawn i'r plantos am fodloni i gymryd



Llongyfarchiadau i Elena Jones, disgybl yn Ysgol Gynradd Brynsaron, wyres David John a Sallie Davies, Maes ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth wehyddu unigol i flynyddoedd 5 a 6 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pen-y-Bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017.

rhan a phawb wedi ceisio eu gorau. Llongyfarchiadau i Tegwen a Megan am ennill medalau am gael y pwyntiau uchaf yn eu grŵp oedran.

Cofiwch am Ddiwrnod Hwyl Llanllwni ddydd Sadwrn, yr 8fed o Orffennaf.

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg bob bore ar gampws yr ysgol gynradd rhwng 8.45-12, ac yn cynnig addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Bethan Vernon ar 07875409172 neu bethan704@btinternet.com .

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Gweithgareddau Cylch Ti a Fi:
04.07.17 Chwarae tu allan

11.07.17 Cibabs ffrwythau

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob prynhawn dydd Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1-3yp ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofawyr, mam-gus a thad-cus ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded. O fis Medi ymlaen, bydd y Cylch Ti a Fi yn dychwelyd i foreau dydd Gwener o 9 tan 11 y bore.

Ysgol Carreg Hirfaen

Cafwyd diwrnod o fabolgampau rhagorol ar ddiwrnod braf ar gae Pentref Cwmann ar yr 20fed o Fehefin. Enillwyr y medalau am y pwyntiau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen oedd Ifan Jones, Isaac Davies, Lilybet Cousinne a Jay Williams. Yng Nghyfnod Allweddol 2 yr enillwyr oedd Casi Gregson ac Osian Elis Roberts. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Bu nifer o ddisgyblion bl 4 yn cystadlu yng Ngŵyl Criced 50/50 yr Urdd ar gaeau Llandysul yn ddiweddar. Fe wnaeth y garfan gystadlu'n frwd gan ennill dwy gêm a cholli un. Roedd llawer o'r disgyblion wedi sgorio'n uchel. Da iawn chi!

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn cychwyn ar eu haddysg yn yr Ysgol Uwchardd ym mis Medi sef Elen Jones, Jessica Jones, Gwenllian Llwyd Jones, Sion Harry Evans, Osian Roberts, Osian Kersey, Jamie Griffiths, Kai Bexon, Niomi Carroll, Lowri Rowcliffe, Sophie Bundock, Sophie Weedon, Robert Faulkner, Abi Guest, Iestyn Thomas, Alex Lewis, Alfie Farquhar ac Owen Harrison. Byddwn yn gweld eich eisiau yn fawr iawn a diolch yn fawr iawn i chi am eich holl ymroddiad i fywyd Ysgol Carreg Hirfaen.



Ysgol Carreg Hirfaen a'r Sioe Frenhinol

Cymerodd y disgyblion ran yn niwrnod 'Dim Gwisg Ysgol' Sir Gâr yn ddiweddar. Y bwriad oedd codi arian ac ymwybyddiaeth er mwyn gwella cyfleusterau ar faes y Sioe Frenhinol. Codwyd £140.00 at yr achos.

Daeth Rachel Dilcock-Thomas â dau geffyl i gwrdd â'r disgyblion a daeth llysgennad y sioe eleni, Georgina Cornock-Evans, â cherflun y mae wedi ei gomisiynu ar gyfer y sioe yn Llanelwedd.



Yn ystod y tymor diwethaf bu unigolion o'r ysgol yn brysyr yn ymarfer ar gyfer cyngerdd y Proms. Bu Jessica, Elen a Gwenllian yn rhan o'r côr. Bu llawer o waith dysgu ac ymarfer, ac roedd yn bleser eu gweld ar lwyfan mawr y theatr yn rhan o gôr Ieuentid Sir Gâr.



Dyma lun o Dafydd Jones yn cyflwyno tarian her Daniel a Dafydd Jones, Hendai i'r tîm pêl droed bechgyn buddugol, sef Carreg Hirfaen, yng Nghystadleuaeth Bêl-Droed y Ffair Haf.

Cafwyd noson hyfryd yn ein Ffair Haf eleni eto ac hoffwn ddiolch i aelodau'r PTA am ei threfnu.

Llongyfarchiadau hefyd i dîm pêl droed y Merched a enillodd gystadleuaeth y merched ac i dîm bechgyn 3 a 4 am ddod yn ail yn erbyn tîm Bro Pedr. Roedd yn ffeinal agos iawn.



Yn rhan o'n gwaith ar y thema 'Bywyd ar y môr a'i donau' aeth plant dosbarthiadau Crwys ac Hathren am drip i orsaf y Bad Achub yng Ngheir Newydd. Cafwyd bore diddorol tu hwnt a dysgom lawer am waith a dylatswyddau'r RNLI. Fe'n synnwyd ni gan yr holl waith sy'n mynd i ofalu am y cychod.

Aethom i chwilio am gregyn diddorol ar y traeth hefyd a gwelwyd sawl coes cranc! Cafwyd cyffro mawr pan welwyd yr holl slefrenni môr oedd wedi cael eu golchi lan ar y traeth. Cawsom ddiwrnod i'r brenin ac yn bendant roedd yn drip i'w gofio!

Cawsom wahoddiad i gymryd rhan yn nhwrnmet Pêl-droed Sêr Dewi yn ddiweddar. Chwaraeodd y plant yn arbennig o dda yn erbyn ysgolion ar draws Ceredigion ac ennill oedd hanes timau'r merched a'r bechgyn o Garreg Hirfaen. Da iawn chi blant! *[gweler llun o'r merched ar y dde]*

Ym myd athletau, dymunwn longyfarch Osian Elis Roberts ar ddod yn drydydd yn Ras y Clwydi ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cynradd Dyfed yn ddiweddar. Tipyn o gamp, Osian Elis.



Clwb 125 Neuadd Sant Iago

1. Carol Doughty, Carys, Cwmann, 15; 2. Jim Brown, Ty Helyg, Cwmann, 37; 3. Mr a Mrs B Hughes, Ramleigh, Cwmann, 50; 4. Mary Jones, 41 Stryd Fawr, Llambod, 65; 5. Aled Williams, Sarn Helen, Cwmann, 26; 6. Alun Jones, Glanrhyd, Parc-y-rhos, Cwmann, 80; 7. Heledd Jones, Penrhos, Cwmann, 104.

Clwb 225 Pwyllgor Pentref Cwmann Mis Mehefin 2017

1. Tomos ac Elen, Felindre Uchaf, Cwmann; 137. 2. D. Herbert, Dolfor, Cwmann; 2. 3. A. Davies, Tŷ Capel, Parc-y-rhos, Cwmann, 188. 4. Anita Williams, Gwel-y-Coed, Cwmann. 187. 5. Geraint a Meleri Jones, Islwyn, Heol-y-Bont Llanbed, 125. 6. Von Abel, Neuadd Deg, Cwmann, 12. 7. Tom Harries, Castle View, Llanllwni. 174.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â'r teuluoedd canlynol sydd wedi bod mewn profedigaeth yn ystod y mis:

Ronnie Roberts a'r teulu, Brynview a Verina Roberts a theulu Gelli Aur ar farwolaeth brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr – Eirwyn Roberts, Sydmouth.

Trist oedd clywed am farwolaeth Victor Morris, Felinfach ar ôl blynyddoedd o frwydro yn dilyn damwain erchyll. Cofiw'n am ei briod Val a'r merched, ei rieni Ann ac Aubrey Morris a'r teulu, 16 Heol Hathren a fu mor ofalus a chefnogol iddo dros y blynyddoedd.

Yr un yw ein cydymdeimlad â theuluoedd Ann Lewis, Hillcrest a fu farw yn ddiweddar.

Cymorth Cristnogol

Y cyfanswm a gasglwyd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni oedd £932.00. Diolch yn fawr i'r casglwyr am roi o'u hamser ac i

bawb a gyfrannodd.

Sefydliad y Merched

Croesawodd y llywydd, Mary Davies, ni i gyfarfod mis Mai yn Festri Bethel a diolchodd i'r swyddogion a'r aelodau am gael defnyddio'r festri. Cydymdeimlodd â Brenda ar golli brawd.

Soniodd Mary bod dwy o'n haelodau wedi bod ar y teledu, Gwyneth ar Prynhawn Da ac Helena gyda Tudur Owen. Cafwyd ymddiheuriad oddi wrth Elma. Roedd Gwyneth a Mary wedi bod yn SYM Llanddewi Brefi yn gwrando ar Elwen Roberts yn siarad am Hybu Cig Cymru. Roedd Elma a Mary wedi bod yn y Ffair Wanwyn yng Nghaerfyrddin a chael diwrnod da iawn. Gwahoddiad oddi wrth SYM Cellan nos Iau, Mai 11eg - noson gan Pethau Olive.

Yna aeth Mary ymlaen i groesawu ein gŵr gwadd, Dai Davies o Aberaeron sy'n gweithio i'r arwerthwyr 'Evans Bros'. Cawsom noson ddiddorol ganddo yn sôn am henebion. Dywedodd bod pris henebion yn gwahaniaethu o flwyddyn i flwyddyn. Ei ddiddordeb ef yw casglu pethau bychain ag enwau pentrefi arnynt e.e. Mydroilyn, Cilcennin ayb. Diolchwyd iddo gan Noleen am noson ddiddorol gan fod yr aelodau wedi dod â rhywbeth oedd yn werthfawr iddyn nhw a bu Dai yn sôn ychydig amdanynt i gyd. Ar ôl cwpanaid wedi ei baratoi gan Avril a Noleen, aethpwyd ati i drefnu bwyd ar gyfer y carnifal. Enillwyd y raffl gan Gwyneth.

Nos Lun y 5ed o Fehefin rhoddodd ein llywydd, Mary, groeso i bawb. Cydymdeimlwyd â Helena ar golli ei chwaer. Aethpwyd ymlaen wedyn i groesawu ein gwraig wadd am y noson sef Maureen Davies sydd yn aelod gweithgar iawn o Sefydliad y Merched Sir Gâr. Dywedodd ei



Dylan Lewis Llywydd CFfl Cwmann a'i wraig Carys yn cyflwyno gwobrau'r clwb am eleni, Aelod Iau'r Flwyddyn i Sara Elan Jones ac Aelod Hŷn y Flwyddyn rhwng Sian Elin Williams a Carys Thomas.



Aelodau CFfl Cwmann yn cyflwyno dwy sic i achosion da: £662.30 i'r Gymdeithas Stroc a £547.28 i'r Teenage Cancer Trust, arian a godwyd mewn digwyddiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

bod wedi mynd i Goleg Denman gyda'r mudiad wyth mlynedd yn ôl ac wedi cael llawer o hwyl wrth ddechrau creu tlysau a thecstilïau. Dechreuodd trwy wneud brooches ac ar ôl blwyddyn symud ymlaen a dechrau gwneud beads. Roedd ganddi rai o bob lliw a llun, rhai mawr a bach. Yna, fe berswadiodd ei gŵr i ddod gyda hi i ddysgu sut i drin pren a gwneud wood turning. Yr oedd ganddi gasgliad bendigedig o'i gwaith. Ar ôl cwpaned wedi ei baratoi gan Gwynfil a Brenda

cawsom gyfarfod busnes i ddilyn. Diolchodd y llywydd i bawb a fu yn helpu, ac i bawb a gyfrannodd tuag at y bwyd ar ddiwrnod y carnifal. Roedd hwnnw'n brynhawn llwyddiannus.

Enillwyd y raffl gan Joyce. Cyfarfod mis Gorffennaf prynhawn dydd Mercher y 5ed. Cwrdd yn Heol Hathren am 11.30 i ymweld â Swyddfa Tinopolis yn Llanelli.



Aelodau a chefnogwyr CFfl Cwmann yn eu cinio blynyddol yng Ngwesty'r Llanina Llanarth.

Llanybydder

Eglwys San Pedr Gwasanaeth y Gair

Mrs Susan Evans oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth a gynhaliwyd ddydd Sul yr 11eg o Fehefin 2017. Y testun oedd ‘Dwylo’.

Adroddwyd stori yn gyntaf am ddau frawd, Albrecht ac Albert Durer o’r Almaen. Roedd 18 o blant yn y teulu ac roedd y ddau frawd dan sylw’n dalentog iawn mewn gwaith celf. Ond gan nad oedd arian gyda’u tad i ddanfôn unrhyw un o’i blant i goleg celf penderfynodd y ddau frawd y byddai un yn mynd i’r coleg tra byddai’r llall yn mynd i weithio lawr yn y mwynfeydd er mwyn ei gefnogi’n ariannol. Un bore Sul, ar ôl cwrrdd, penderfynwyd drwy daflu ceiniog mai Albrecht fyddai’n mynd i’r coleg yn gyntaf. Ond gwaetha’r modd, erbyn daeth tro Albert mewn pedair blynedd roedd ei ddwylo wedi eu niweidio gymaint fel y byddai’n amhosib iddo gydio mewn brws paent. Oherwydd aberth ei frawd gwnaeth Albrecht dynnu llun dwylo ei frawd â’i gledrau ynghyd. Erbyn hyn, mae’r llun yn adnabyddus dros y byd i gyd.

Yn dilyn hyn, cafwyd trafodaeth am ddwylo’r Iesu. Bu’r Iesu yn defnyddio ei ddwylo i gyflawni gwyrthiau. Cydiodd Iesu yn llaw merch Jairus a’i chodi’n fyw. Bu’r Iesu hefyd yn cyffwrdd llygaid y ddau ddyn dall a gwella’r gwangleifion â’i ddwylo. Roedd Iesu yn fodlon mynd ar ei luniau i olchi traed eraill a thalu’r pris eithaf drosom drwy gael ei ddwylo wedi eu hoelio ar y groes.

Gallwn ni ddilyn esiampyl yr Iesu gan estyn ein dwylo a helpu ein cyddyn.

Yn ystod Gwasanaeth y Teulu ar y 18fed o Fehefin cofiwyd mewn gweddi am ddioddefwyr tân erchyll Tŵr Grenfell, Llundain ac yn enwedig am y rhai a dioddefodd anaf, y rhai oedd wedi colli aelodau o’u teulu a ffindiau, a’r holl drigolion a oedd wedi eu gadael yn ddi-gartref. Rhoddwyd gwerthfawrogiad i’r rhai hynny a oedd wedi cynnig help llaw i’r gymuned a chwalwyd oherwydd y drasiedi.

Noson Bingo

Cynhaliwyd nos Fawrth 23ain o Fai 2017 yng Nghlwb Rygbi Llanybydder. Diolch i bawb a fu’n cefnogi’r noson. Braf oedd gweld nifer o drigolion Cartref Allt-y-Mynydd, Llanybydder yn bresennol. Dymuniadau gorau i chi i gyd.

Hefyd dymuniadau gorau i holl aelodau’r Eglwys sydd heb fod yn gallu mynychu’r Eglwys cyn amled ag o’r blaen oherwydd salwch.

CLWB 100
Enillwyr Mis Mehefin
1af – Ray Thomas Rhif 72 £15;
2ail – Noa, Clwb Rygbi,
Llanybydder Rhif 56 £10;

3ydd – Gwen Jones Rhif 92 £5.

Dathlu

Dechrau mis Mehefin roedd Delyth Evans, Maesgwyn yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 50 oed. Gobeithio dy fod wedi mwynhau’r dathlu.

Merch fach

Llongyfarchiadau i Meinir ac Andrew Pattie, Y Fedw ar enedigaeth merch fach, Nia. Chwae’r fach i Tomos. Wyres fach i Eddie ac Eirian Thomas, ‘Gwargaig’ a nith i Emyr.

Sefydliad Prydeinig y Galon Ardal Llanybydder a Llambed

Ar y 9fed o Fai cafwyd ein pwyllgor blynyddol. Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn a gwnaethpwyd £8,460.03 o elw at yr elusen bwysig hon.

Y swyddogion am eleni yw:

Llywydd - Y Cynghorydd Ivor Williams

Cadeirydd - Dave Smith

Ysgrifenyddes - Jennie Bracher

Trysorydd - Ann Davies

Gohebydd y Wasg - Jennie

Bracher

Asiant Cardiau Nadolig - Ann

Davies

Archwilydd - Eirios Jones

Ry’n ni’n cyfarfod tua 4 - 5 gwaith y flwyddyn ac mae croeso cynnes i bawb ymuno.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Daniel Thomas, Neuadd Deg yn teimlo’n well yn dilyn llawdriniaeth mewn ysbyty yn Llundain yn ystod mis Mehefin. Edrychwn ymlaen i’ch gweld gartref a hynny yn fuan.

Diolch

Diolch gan Silyn Thomas, Heol y Gaer, Llanybydder a ddatlodd ei 80oed yn ddiweddar

Diolchaf i fy Arglwydd

Am gael i ddathlu f’oed

Y sgôr o double forty

Na chefais well erioed,

Ac yn fy nghof, gael rhodio’r daith Gerddais dros y blynyddoedd maith.

Hefyd i’m holl gyfeillion

Diolchaf, gyda gwên

Am eu dwys gydymdeimlo

Fy mod yn mynd mor hen

A’r cardiau a’r cyfarchion lu

Yn foddion i hen groc fel fi.

Diolch am yr anrhegion

Derbyniol iawn, bob un

Gan gynnwys y tabledi

A’r jar o Vaseline.

Hyn oll yn help i gadw i droi Oedrannus ‘engine’ yr hen foi.

A chyn terfynu, diolch

I f’amynneddgar wraig

Am gadw ei haddunedau

Yn gadarn fel y graig

Er gwaetha fy mod nawr mor fên

Ac yn babanu wrth fynd yn hen.

Eglwys Annibynnol Rhydybont

Mae Eglwys Rhydybont yn dathlu ei thri chan mlwyddiant eleni. Yr adeilad presennol yw’r pedwerydd adeilad yn hanes yr Eglwys. Rhoddwyd tir, ychydig i’r de o’r safle presennol gan John Lloyd, Ystad Alltrodyn ar dir fferm Rhydybont i godi’r capel cyntaf.

Bydd gwasanaeth i ddathlu’r tair canrif yn cael ei gynnal dydd Sadwrn, 22ain o Orffennaf am 2.00 o’r gloch ac mae croeso cynnes i bawb ddod i gyd-lawenhau gyda’r aelodaeth bresennol.

Mae llyfr yn olrhain hanes yr Eglwys o’r dyddiau cynnar, yn cynnwys atgofion rhai o’r aelodau, wedi ei baratoi a’r gobaith yw y bydd yn barod erbyn y gwasanaeth dathlu.

Bydd lluniaeth ysgafn ar ôl y gwasanaeth yn Festri Aberduar.

Lleisiau’r Werin

Nos Wener, Mai 19eg, bu’r côr yn diddanu, fel yr arfer, yn noson goffi Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar. Cafwyd hwyl ar y canu a braf oedd cael eitemau amrywiol gan blant ysgol gynradd Llanybydder. Eglwys Sant Pedr, Llambed oedd y lleoliad ar Fehefin 24ain pan fu’r côr yn canu mewn cyngerdd elusennol gyda’r Clwb Rotari i godi arian at Ambiwylans Awyr Cymru. Unwyd gyda Chôr Meibion Cwmann i ganu “Hawl i Fyw” ac yr oedd unawdwyr adnabyddus hefyd yn cymryd rhan.

Llawenydd i ni ferched y côr oedd clywed ddechrau mis Mai fod ein harweinyddes ymroddgar, Mrs Elonwy Davies, wedi ei hanrhydeddu â gwisg werdd Gorsedd y Beirdd a bydd yn cael ei derbyn i’r orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn ar Awst 7fed. Gŵyr pawb am ei gwaith diflino i gymaint o fudiadau a’i bod yn llwyr deilyngu’r anrhydedd yma.

Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder

Eleni eto cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus yn Festri Aberduar ar Fai 19eg. Agorwyd y noson gan ein llywydd Mr Eryl Jones, Cyfrifydd, Heol yr Orsaf.

Bu yn haelionus iawn gyda’i gyfraniad i’r coffrau. Rhoddodd araith bwrpasol iawn wrth rannu ei atgofion am bentref Llanybydder. Hefyd roedd ei bartner Eleri yn bresennol.

I ddiddanu’r gynulleidfa roedd plant Ysgol Llanybydder a Chôr Lleisiau’r Werin. Bu’n fwynhad i wrando ar y plant a’r côr yn canu ac yr ydym fel Pwyllgor yn eich

gwerthfawrogi’n fawr iawn.

Roedd pawb wedi bod yn hael iawn wrth gyfrannu a phrynu. Diolch yn fawr.

Enillwyr y raffl oedd:

1. Ayrton 480574. 2. Irene 480605. 3. Geraint Thomas, Côr Cwmann. 4. Derek, Frongelli, New Inn. 5. Evans, Llanybi 493500. 6. Trick 07790 940590. 7. Ted 481402. 8. Gareth, 6 Heol y Dderi.

Hampers - 1. Jill Evans. 2. Gwyneth Morgan 3. Kim Rees.

Ysgol Llanybydder

Mae tymor yr haf, fel arfer, yn dymor prysur dros ben, gyda’r disgyblion yn mynychu nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Bu nifer o ddisgyblion yn diddanu yn noson goffi’r henoed yn Aberduar eleni eto. Diolch i’r pwyllgor am y gwahoddiad a’r croeso.

Aeth aelodau’r Urdd yn y Cyfnod Sylfaen i’r gêmiau potes yn Llambed yn ddiweddar. Cawsant lawer o hwyl wrth gymryd rhan.

Hefyd, bu nifer o aelodau’r Urdd Bl 4-6 yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog am ychydig ddyddiau yn ddiweddar. Cawsant amser hwylus dros ben ac roedd y tywydd yn fendigedig.

Roedd 14eg o Fehefin yn ddiwrnod cyffrous iawn i’r Cyfnod Sylfaen gan fod y Gegin Ddwl newydd yn cyrraedd – prosiect yw hwn ar y cyd rhwng yr ysgol a Choleg Sir Gâr. Dyluniwyd ac adeiladwyd y gegin gan fyfyrwyr adran adeiladu’r Coleg gyda mewnbyn wrth blant y Cyfnod Sylfaen. Mae’n diolch yn ddiffuant i Mr Daryl Thomas am drefnu’r fenter ac i bawb a fu’n gysylltiedig mewn unrhyw fodd. Diolch yn fawr.

Cafodd Blwyddyn 5 & 6 amser hwylus iawn yn ‘Niwrnod y Llewod’ yn ysgol Bro Pedr ar y 13eg o Fehefin lle cawsant gyfle i berfformio’r ‘Hakka.’ Gwyliodd y plant fideo o Ken Owens yn ateb cwestiynau gan ddisgyblion yr ardal a chymryd rhan mewn trwnamaint rygbi. Roedd yn gyfle arbennig i wneud ffrindiau newydd. Diolch yn fawr i Mr Roderick, Mr Davies a Mr Rees am drefnu.

Bu Bl 3&4 mewn trwnamaint criced yn Llandysul ar yr 16eg o Fehefin. Cafwyd diwrnod hwylus dros ben.

Nos Sul 19eg o Fehefin, bu nifer o’r disgyblion yn cymryd rhan yng nghyngerdd wythnos Garnifal Pwyllgor y Pentref yn neuadd yr ysgol. Rydym yn ddiolchgar i’r Pwyllgor am y gwahoddiad i fod yn rhan o’r cyngerdd. Diolch hefyd i’r rhieni am gefnogi’r plant.

Ar y 26ain o Fehefin, cynhaliwyd mabolgampau’r ysgol. Roedd yn brynhawn hyfryd gyda pawb yn mwynhau a chymryd rhan. Llongyfarchiadau i’r plant i gyd am

Llanybydder

gystadlu, yr holl enillwyr a'r tîm melyn a oedd yn fuddugol yn y diwedd. Mae diwedd y tymor yn cyflym agosáu a phawb yn edrych ymlaen at y trip ac yna wrth gwrs, y gwyliau. Fel arfer, byddwn yn gorfod ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6. Dymuniadau gorau i chi gyd yn yr Uwchradd. Cofiwch alw'n ôl i'n gweld ni yn Llanybydder. Gwyliau Haf hapus i bawb.



Ar yr 8fed o Fehefin, ymwelodd 'Dyn y Gwenyn' â'r ysgol. Cafodd cyfnod allweddol 2 amser diddorol dros ben wrth ddysgu am y broses o wneud mêl a chael y siawns i'w flasau.



Ar y 13eg a'r 14eg o Fehefin, bu nifer o'r disgyblion yn cymryd rhan yn nhwrnamaint pêl droed Llanfihangel-ar-Arth. Bl 4-6 oedd yn chwarae ar y nos Fawrth. Gwnaethant yn dda iawn a chyrraedd y rownd derfynol. Da iawn, blant. Tro Bl 2-3 oedd hi ar y nos Fercher – llongyfarchiadau mawr i'r tîm am ennill y trwnamaint. Ardderchog! Cafodd Kieran Rawstron o flwyddyn 6 a Shane Evans o flwyddyn 3 eu dewis fel chwaraewyr y trwnamaint. Da iawn fechgyn, daliwch ati. Diolch yn fawr i Bwyllgor y Cae Chwarae am y gwahoddiad. Edrychwn ymlaen at chwarae a chefnogi eto'r flwyddyn nesaf.

Llambod



Tîm rygbi Adran Llambod yn dod yn drydydd yn y gystadleuaeth genedlaethol – da iawn chi.

GIG YR HAF

Sŵnami Calfari Mellt

Nos Wener 14eg o Orffennaf
Neuadd Victoria Llambod
Am 8yh
Tocyn yn £8 o flaen llaw
£10 wrth y drws
CROESO I BAWB!

Am ragor o wybodaeth elbostwch: slanelin@urdd.org
• Neu gofynwch Llysgennad yr Urdd yn eich ysgol •
I Archebu Tocyn o flaen llaw
Ffôn: 01239652150
Mae modd hefyd archebu ar lein: thelittleboxoffice.com/Victoriahall

Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref


Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com



Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwy cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weinï cysurus
Clwb Rygbi Llambod yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd a yb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambod**

01570 422206 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Llanbedr Pont Steffan



Llun o'r ffyddloniaid yn cyfarfod yn foreol yng Nghaffi Mark Lane dros baned, sgwrs a chlonc er mwyn rhoi'r byd yn ei le. Does dim angen prynu'r Western Mail er mwyn cael y newyddion diweddaraf! Cwmni da a staff croesawgar.

GSUSlive

Wythnos cyn hanner tymor mis Mai gwelwyd lori enfawr GSUSlive yn cael ei pharcio o flaen Ysgol Bro Pedr. Roedd wedi dod yno am yr ail dro er mwyn rhoi cyfle i ysgolion lleol ymweld a manteisio ar y cyfleusterau sy ar y lori gyda lle i 32 o blant a phobl ifainc ar y tro, fesul dosbarth. Mae'r rhaglenni sy ar bob cyfrifiadur ar y lori yn arwain pobl ifainc i glywed am ddysgeidiaeth Iesu a chariad Duw.

Cyd-destun hyn yw'r ffordd mae'r ddysgeidiaeth honno'n helpu gyda phroblemau go iawn pobl ifainc debyg iddyn nhw. Wedi dweud hynny, mae'r problemau penodol sy'n cael eu trafod, sef ofn, a'r teimlad eich bod yn cael eich gwrthod, a chael trafferth i faddau wedi cael cam, yn broblemau sy'n effeithio ar fwy na phlant a phobl ifainc yn unig.

Yn ystod yr wythnos fe fu gwirfoddolwyr o eglwysi'r dre a'r ardal yn croesawu'r plant, cannoedd ohonyn nhw erbyn y diwedd a gyda'r nos fe fu rhai grwpiau eglwys hefyd yn ymweld. Elusen gofrestredig Counties (rhif elusen 264278) sy'n darparu'r lori, felly diolch yn fawr i Counties, diolch i'r athrawon a'r ysgolion a dderbyniodd y gwahoddiad, a diolch hefyd i wirfoddolwyr ewyllysgar oedd ar y lori bob dydd. Ond wrth gwrs, y diolch pennaf i'r bobl ifainc a ddaeth ar y lori ac ymroi i'r gwaith – ry'n ni'n falch iawn fod cymaint ohonyn nhw wedi joio! Gwych.

Noddfa

Nos Sul 25 Mehefin cynhaliwyd Oedfa Deulu arbennig yn Noddfa yng ngofal Llinos.

Braf oedd gweld cynulliad teilwng iawn wedi dod ynghyd. Cyhoeddwyd yr emynau gan Trystan Wyn, Esther, Ifan, Tudur, Lisa a Beca, offrymwyd gweddi gan Cerys Angharad a chafwyd unawd swynol gan Elan.

Thema'r oedfa oedd Mari Jones a'i Beibl ac fe gyflwynwyd y stori mewn ffordd effeithiol iawn gan Tomos Rhys, Beca, Sioned, Ffion a Gwenllian. Diddorol hefyd oedd gwyllo ffilm o'r hanes ar y sgrin fawr.

Yna bu pawb yn cymryd rhan mewn cwis ysgafn ar furff y rhaglen deledu Pwy sy am fod yn Filiwnydd? eto yn seiliedig ar Mari Jones a'i Beibl. Cafwyd llawer o hwyl gyda'r plant i gyd yn ymuno gyda brwdfrydedd a'r oedolion hefyd.

Yna bu Llinos yn holi'r plant am eu diddordebau a chafwyd atebion amrywiol iawn, o chwarae pêl-droed i ganu'r delyn a nofio, gydag Erin a Llewelyn, y ddau ieuegaf yn ein plith, hefyd yn mwynhau cymryd rhan. Soniodd Llinos ei bod yn bwysig i ni wneud lle i Iesu Grist yn ein bywydau prysur. Diolchodd i bawb oedd wedi cymryd rhan, i Alwena am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i'r Parchedig Jill Tomos am ei chymorth gyda'r offer technegol. Talodd ein Gweinidog ddiolch haeddiannol i Llinos am ei pharatoadau trylwyr gan sicrhau oedfa hyfryd a roddodd bleser mawr i bawb oedd yn bresennol.

Wrth droi tuag adref roedd pawb yn uchel eu canmoliaeth am gyfraniadau graenus y plant a'r bobol ifanc, heb anghofio gwaith clodwiw Llinos.

Traddodwyd y fendith gan Osian Jones.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis aeth heibio.

Oedfa Ddathlu

Cynhelir Oedfa Ddathlu 25 mlynedd o Weinidogaeth y Parchedig Glan Roberts yng nghapel Noddfa ar Sul 9 Gorffennaf am 2.30 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb.



Maer newydd Llanbedr, y Cyng. Hag Harries a'r faeres, Mrs Eiry Morgan yn seremoni sefydlu'r Maer nos Wener 26ain Mai yn yr Hen Neuadd, Coleg y Drindod Dewi Sant.



Daeth dathliadau canmlwyddiant Sefydliad y Merched Llanbedr i ben gyda Pharti Caws a Gwin yn Neuadd yr Eglwys. Agorwyd y noson gan Ben Lake, Aelod Seneddol newydd Ceredigion a dyma'i ddyletswydd swyddogol cyntaf ers ei ethol. Cyflwynodd Llywydd y gangen, Jean Palmer, nwyddau lleol arbennig iddo – Waffls Tregroes, potel o win Llaethlli a chawsiau Cymreig.

Cinio

Cynhelir Cinio Trydydd Byd dan nawdd Cymorth Cristnogol yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr ddydd Gwener, Gorffennaf 7fed rhwng 12 – 1.30. Croeso cynnes i bawb.

Pen-blwyddi arbennig

Pen-blwydd hapus i Llion Thomas, Gilfachwen yn 21 oed ar Orffennaf 12fed. Pob dymuniad da i ti wrth ddathlu.

Hefyd, pen-blwydd hapus yn 18 oed i Meirion pan fydd e'n dathlu ddechrau Awst.

Diolch

Dymuna John ac Elizabeth Warmington ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a gafwyd ar eu Priodas Aur ar 3 Mehefin. Dathlwyd yr achlysur gyda'r teulu dros de prynhawn yng Ngwesty'r Plu yn Aberaeron. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd.

Merched y Wawr

I orffen blwyddyn lwyddiannus aeth yr aelodau ar y 14eg o fis Mehefin i ymweld â Casa Del Cymru yn Horeb, ger Llandysul. Gwneud pasta a raviolis fresh mae'r cwmni yma. Cafwyd awr blesurus iawn yng nhwmni perchnogion y ffatri sef Simon a Gina Pope yn blasu y gwahanol gynnyrch a

Llanbedr Pont Steffan



Ymddeolodd tri o Gynghorwyr Tref Llanbedr Pont Steffan ar ddiwedd blwyddyn y cyngor. Cyflwynwyd tarian ag arfbais y dref i'r tri ohonynt am eu gwaith dros nifer helaeth o flynyddoedd - Elsie Dafis deg mlynedd, John Davies deg mlynedd ar hugain a Dorothy Williams pymtheg mlynedd ar hugain. Hefyd ymddeolodd y Cyng. Andrew Carter wedi 22 mlynedd a'r Cyng. Derek Wilson wedi 13 mlynedd ond nid oeddent yn bresennol.

phawb yn canmol ac yn mwynhau. Yna teithio i Dafarn Ffostrasol i gael pryd o fwyd. Trefnwyd y daith gan Gwen gyda chymorth Gwyneth. Diolchwyd i'r ddwy gan Elin, ein llywydd. Cyfeiriodd Elin hefyd bod ei blwyddyn fel llywydd wedi bod yn bleserus iawn gan fod pawb o'r aelodau wedi bod mor barod i gyflawni pob dyletswydd a ofynnwyd iddynt a dymunodd yn dda i'r pwyllgor newydd.

Yn yr Ŵyl Haf Aur ym Machynlleth enillodd Gillian Jones, ein Trysorydd, y brif wobwr lenyddol drwy gyflwyno gwaith llenyddol mewn unrhyw ffurf ar y testun "Nid aur yw popeth melyn" Daeth i'r brig ac ennill Tlws Llenyddol Ann Lewis. Daeth hefyd yn ail yn yr un gystadlueaeth ac yn ail yn y Stori Feicro hefyd. Llongyfarchiadau enfawr i Gillian. Roedd balchder mawr hefyd bod ein cangen wedi ennill yr ail wobwr am y rhaglen orau o blith 270 o ganghennau trwy Gymru. Hefyd yn yr Ŵyl Haf, Rajesh David o Lanbed a enillodd y wobwr ar gyfer dysgwyr ar lefel uwch. Mae ef yn frwdfrydig iawn dros y Gymraeg. Llongyfarchiadau mawr iddo yntau.

I ddatlu hanner can mlynedd o Ferched y Wawr eleni crewyd deuddeg o Baneli Celf hardd gan aelodau creadigol ledled Cymru. Aerwen Griffiths, un o'n haelodau ni fu'n bennaf gyfrifol am Banel Ceredigion gyda help aelodau eraill o'r Sir. Da iawn chi am waith celfydd iawn. Bydd y Paneli yn cael eu harddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Y Sioe Frenhinol a'r Llyfrgell Genedlaethol yn ystod y flwyddyn.

Byddwn yn rhoi croeso i dimau rownd cyn derfynol Talwrn y Beirdd Radio Cymru i Festri Shiloh ar y 13eg o fis Gorffennaf. Hefyd edrychwn ymlaen at gystadlu yn Eisteddfod Llanbed ym mis Awst.

Noson Gomedï

Cynhelir noson gomedi yn Llanbedr Pont Steffan ar y 10fed Gorffennaf, yng Nghlwb Rygbi Llanbed am 8 o'r gloch.

Bydd y noson yn wych - yr MC yw boi lleol, Gary Slaymaker, gyda dau ddigrifwr, Phil Cooper o'r Rhondda a Dan Thomas o Abertawe, yn gwneud eu sioeau newydd sbon cyn iddynt recordio i S4C mis nesa.

Cymdeithas Hanes Llanbed

Cafwyd y trip blynyddol ar 23ain Mehefin ac fe drefnwyd y cyfan gan Barbara ac Euros Jones. Aed gyntaf i Amgueddfa Wlân Drefach Felindre lle bu dau o'r gweithwyr yn ein tywys drwy'r broses o baratoi'r gwllan ar gyfer ei droi'n ddefnydd hardd ar y fframiau gwau. Bob amser mae dyn yn ymweld â hen Felin y Cambrian, un o blith dwsinau ar un amser yn Nyffryn Teifi, mae 'na ryweth newydd i'w ddysgu.

Ymlaen â ni am rai milltiroedd wedyn cyn cyrraedd yr Amgueddfa Tân ac Ynni yn Rhydlewis. A dyma agoriad llygad gyda pheiriannau o bob lliw a llun, nifer ohonynt nhw'n dal i weithio'n berffaith fel y bydden nhw 'slawer dydd. Cafwyd straeon difyr am eu hanes a'u tarddiad - dyma le gwerth ymweld ag e ar bob cyfrif. Diolchodd Eric Williams, yr is-gaddeirydd, i Barbara ac Euros am ddiwrnod eithriadol o ddiddorol a diolchwyd hefyd i Phillip Lodwick, y trysorydd, am ofalu am yr arian..

Bydd tyymor newydd o gyfarfodydd yn ail-ddechrau ym mis Medi. Bydd manylion ar gael yn gynnar ym mis Medi.

Cymdeithas Shiloh a Soar Llanbedr Pont Steffan

Fore Iau Mehefin 22ain teithiodd criw hwyliog o drigolion Llanbed a'r fro ar drip blynyddol Twynog! Anelu am Synod Inn wnaeth y bws gyda'r gyrrwr gofalus Granville wrth y llyw. Pwy oedd yn aros amdanom ar y sgwâr, neb llai na Jon Meirion Jones a oedd yn mynd i'n tywys ar ein taith.



Ein hymweliad cyntaf oedd â Bwlch Melyn Pentrecwrt lle ganwyd yr awdur a'r bardd T. Llew Jones.

Rhythmau'r iaith yw y muriau hen - a chwedl

A chân yw pob llechen.

Cartre Llew, crud deor llên

A thy mabolaeth awen.

(Dic Jones)

Rhan o'r criw yn gwrando ar Jon Meirion.



Man ei eni, Bwlch Melyn, Pentre Cwrt



Carreg fedd T. Llew Jones ym Mynwent Capel y Wîg gydag englyn o waith Dic Jones:

Yma rhwng galar a gwên - yn erw'r

Hiraeth, nad yw'n gorffen.

Wylô'n ddistaw mae'r awen

Uwch olion llwch eilun llên.

Yn anffodus welson ni ddim llyffantod yn croesi'r ffordd ar Bont dŵr bach!

Ymlaen â ni i Bont Alltcaf, lle cyn sydd bellach yn enwog fel un o'r canolfannau i ymweld â hwy yng Nghymru ac a anfarwolwyd gyda cherdd enwog T. Llew. Tra'n bod yn mwynhau ein cinio fe adroddodd John y gerdd fendigedig "Cwm Alltcaf" yn ei chyfanrwydd i ni.

Eglwys Llangynllo oedd yr ymweliad nesaf. Buddug, un o ferched Hendryd oedd yna i'n croesawu, ac yna'r ficer Gareth Reed ac un o'r wardeniaid fu'n rhoi mwy o hanes yr eglwys hardd, unigryw.

Cafwyd arhosiad byr tu allan i gartref Moelona awdur "Teulu bach Nantoer". Trwy gydol y daith cawsom ein diddanu a'n diddori trwy straeon ac englynion bachog gan John Meirion.

Cyrraedd Pontgarreg a churo ar ddrws Dolnant sef cartref T. Llew. Cyfarfod Iolo ei fab a oedd yn fwy na pharod i ddod allan i gael sgwrs. Yng Ngwesyll yr Urdd yn Llangrannog cawsom wyllo fideo a gwrando ar T. Llew Jones yn adrodd storïau. Dawn anhygoel yr awdur a ysgrifennodd dros hanner cant o lyfrau. Ymlaen wedyn i weld bedd T. Llew ym mynwent Capel y Wig. Mynwent lle mae Bois y Cilie wedi eu claddu a lle gwelir englynion cyfoethog ar y cerrig beddau.

Diwedd glo bendigedig i ddiwrnod addysgiadol, llawn hiwmor oedd swper blasus o fwyd cartref yn Llanina. Diolch i Hefina a'i staff am y croeso. Diolch i Granville am yrru mor fedrus ar hyd ffyrdd cul, troellog mewn ambell i le yn enwedig, ac i John Meirion am rannu ei wybodaeth mewn ffordd mor ddiddorol. Yn bennaf diolch i Twynog am drefnu'n drylwyr fel arfer.

Mae pawb yn edrych ymlaen at y trip flwyddyn nesaf, Twynog!

Llanbedr Pont Steffan

Carnifal Llambled

Nos Llun 31 Gorffennaf. Helfa drysor Cerdded, 6.00 yh Llyfrgell Llanbed

Nos Fercher 02 Awst. Helfa drysor Cerbyd, 6.00 yh Rookery Llanbed

Nos Iau 03 Awst. Cwis y Carnifal 8.00yh Clwb Rygbi Llanbed.

Digwyddiadau wythnos y plant yn ffenestri'r siopau Dydd Llun 24 Gorffennaf - Iau 03 Awst. - papurau o Panacea y Parlwr Pincio.

Awst y 5ed Carnifal

Adran ac Aelwyd yr Urdd Llambled

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur tu hwnt i aelodau'r adran a'r aelwyd a diolch i bawb sydd wedi bod yn cynorthwyo ac yn cynnal nosweithiau amrywiol. Diolch i'r rheini am eu cefnogaeth. Diolch yn arbennig i Rhiannon, Elin, Lois a Sian am ddod atom i baratoi'r aelodau ar gyfer cystadlaethau'r eisteddfod ac i Janet a Llinos am drefnu. Pleser oedd gwrandao ar yr holl berfformiadau a gyrhaeddodd y Genedlaethol sef y deuawdau – Cerys ac Alwena, Parti Unsain, Parti Deulais, Ensemble Lleisiol, Partïon Llefaru, Cyflwyniad Dramatig, Heledd Besent a'r dawnswyr disgo. Llongyfarchiadau i'r parti llefaru hyn am gipio'r wobr gyntaf a'r parti unsain a'r dawnswyr disgo ar gyrraedd yr ail safle – tipyn o gamp. Diolch yn fawr iawn i Gyngor Tref Llambled, Cylch Cinio, Clwb Rotari a Chwmni LAS am y nawdd tuag at ein costau. Gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Daeth Haf Meredith i wneud noson grefft, sef llyfnod Mr Urdd, a chafwyd llawer o hwyl yn cynllunio a gwneud – diolch yn fawr, Haf. Bu nifer o aelodau'r adran ar benwythnos yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog a chael tipyn o hwyl yn mwynhau'r amryw weithgareddau yno. Diolch yn fawr iawn i Anthea, Arthur ac Amanda am wirfoddoli i fynd gyda nhw. Bydd yr adran a'r aelwyd yn dechrau nôl yn nhymer yr Hydref – manylion i ddilyn.

Diolch

Dymuna Patricia a Delyth Jones a'r teulu ddiolch yn gynnes iawn i bawb am y cyfraniadau hael a dderbyniwyd yn lle blodau er cof am Margaret Davies Evans, 4 Rhes Harford. Daeth cyfanswm anrhydeddus o £1,350 i law i'w rannu rhwng Parafeddygon Llambled a'r Ambiwllans Awyr. Diolch o galon i bawb.

Cymorth Cristnogol

Hoffwn gydnabod fy niolech a'm gwerthfawrogiad i bawb a fu wrthi yn casglu dros Gymorth Cristnogol yn ddiweddar. Codwyd y swm anrhydeddus o £3457, ymdrech



Aelodau Grŵp Maciwlwr Llanbed yn dathlu eu pen-blwydd yn 30 gyda pharti gwisg arbennig yn Eglwys Sant Thomas. Mae'r grŵp yn cwrdd ar ail ddydd Mercher y mis ac mae croeso cynnes i unrhyw un sy'n colli eu golwg canol (central vision loss). Diolch am gefnogaeth Fferyllfa Lloyds ac Optegwyr Evans a Hughes.

sylweddol iawn. Mae ein dyled yn arbennig eleni i weinidog a swyddogion Eglwys Brondeifi am y weledigaeth o baratoi brecwast - ac mi roedd yn frecwast rhagorol ar gyfer yr elusen ac mi lwyddwyd i godi'r swm anhygoel o £970. Mi fydd yr arian yma yn cael ei ychwanegu at y swm uchod sydd yn gwneud cyfanswm o £4427. Yn ychwanegol at y ffigwr yma, mi gofiwch i'r Gymanfa i ddathlu 300 mlwyddiant geni Pantycelyn godi dros £900. Heb os, mi fedrwn ymfalchïo yn ein hymdrech flynyddol i gofio am y di-freintiedig yng ngwelydd tlawd y byd.

“Yn gymaint i chwi wneuthur un o'r pethau hyn fy mrodyr, i mi y gwnaethoch.”

Gyda diolch. Twynog Davies, Cadeirydd Cangen leol Cymorth Cristnogol.

Dymuniadau Gorau

Mae Mrs May Lewis, Wenllys, Stryd Newydd yn cael gofal yng Nghartref Alltymynydd, Llanybydder ar hyn o bryd – danfonwn ein cyfarchion. Mae'r fro gyfan yn meddwl amdanoch.

Canolfan Deuluol Llambled

Croeso i bawb i'r ganolfan yn Heol y Porthmyn. Yn addas i blant dan 4 oed. Oriau agor: Dydd Llun – 1.00-3.00yp; Dydd Mawrth – 9.15-3.00yp; Dydd Mercher – 9.15-3.00yp; Dydd Iau – 9.15 – 3.00yp; Dydd Gwener – 9.15-12.00yb. Dewch i gael hwyl gyda ni.

Dyma beth sydd ar gael yn y ganolfan: Grŵp babi; Chwarae Blêr; Amser Stori; Sesiwn Gymraeg i Blant – Mudiad Meithrin; Sesiwn mas a tu fas, Celf a chrefft.

Am ragor o wybodaeth edrychwch ar Facebook – Lampeter Family Centre, neu'n cyfeiriad e-bost ni yw lampeterfamilycentre@gmail.com



Llongyfarchiadau i Alis ac Anwen Butten o Glwb Bowlio Llanbedr PS a fu'n cynrychioli Cymru ym Mis Mehefin. Fe wnaethon nhw gyrraedd rownd derfynol parau Prydain Fawr yn Llandrindod a cholli yn erbyn Lloegr yn y rownd derfynol.



Llongyfarchiadau i 5 o ferched Clwb Bowlio Llanbed a fu'n bowlïo i Gymru yn Llandrindod yn y gemau cartref, Fe wnaethon nhw orffen yn 3ydd ar ôl colli i Loegr a'r Alban ac ennill yn erbyn Iwerddon a Jersey. Aelodau'r tîm oedd Carolyn James, Melanie Thomas, Alis Butten, Anwen Butten a Rhian Jones.

O'r Cyngorau Bro



CYNGOR BRO LLANYBYDDER

Etholiad mis Mai

Yn sgil yr etholiad etholwyd pedwar cynghorydd newydd. Byddant yn ymuno â'r wyth cynghorydd sydd wedi eu hailethol.

Mae'r Cyngor ar fin prynu tri o finiau sbwriel sydd wedi'u cynllunio ar ffurf anifeiliaid ar gyfer y Parc am £745.45.

Rhoddydd £300.00 i'r Cyngor gan Gymdeithas y Pentref tuag at gost y biniau.

Rhoddydd £100.00 tuag at welliannau yng Nghapel Aberduar, Llanybydder.

CYNGOR BRO LLANWENOG

Cadeirydd: Cyng Geraint Davies Clerc: Gwennan Jenkins

Cynhaliwyd CCB y Cyngor Cymuned ym mis Mai ac ail-etholwyd y Cyng Geraint Davies yn gadeirydd ac etholwyd y Cyng Bill Green yn is-gadeirydd. Croesawyd y chwech cynghorydd newydd i'n plith a diolchwyd am wasanaeth y rhai sydd bellach wedi gorffen fel Cynghorwyr Cymuned.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi penderfynu cywain syniadau ar gyfer defnydd dyfodol Ysgolion Llanwenog a Chwrtnewydd ac yna adrodd yn ôl i'r Cyngor Sir, felly mi fydd y wybodaeth yn cael ei chasglu yn niwrnodau dathlu'r ddwy ysgol ar y 15fed a'r 16eg o Orffennaf drwy farcio syniadau ar bapur mawr.

Diffibriliwr - Cofiwch bod Diffibriliwr nawr yn y llefydd canlynol yn y Plwyf:

- Neuadd Gorsgoch
- Ciosg Cwmsychpant
- Ciosg Cwrtnewydd
- Ciosg Drefach

Os ydych am hyfforddiant noson ar sut mae'r system yn gweithio cysylltwch gyda'r Clerc os gwelwch yn dda.

CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blyneddol yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 8 Mai 2017 am 8.00yh. Cyflwynwyd y fantolen flynyddol i'r aelodau, ac arwyddwyd y ffurflenni priodol gan y Cadeirydd sef y Rheolau Sefydlog. Cynhaliwyd y cyfarfod arferol am 8.30yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynnwyd croeso cynnes i'r pedwar cynghorydd newydd: Hefin Harries, Andrew Thomas, Meinir Evans ac Emrys Evans. Penderfynwyd yn unfrydol i anfon llythyron o ddiolch am eu gwasanaeth i'r ardal i'r cynghorwyr a oedd wedi ymddeol: Tom Jones (50 mlynedd), Tom Bowen (40 mlynedd), David Thorne (40 mlynedd) ac Emyr Evans (20 mlynedd).

SWYDDOGION - Etholwyd y canlynol: Cadeirydd, Eric Davies; Is-gadeirydd, Dewi Thomas; Penderfynwyd gwahodd David Thorne i weithredu fel Gohebydd y Wasg.

CWMNI RES - Doedd dim datblygiadau pellach.

Y CAE CHWARAE - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr o wybodaeth gan Williams & Bourne yn nodi y byddai'r ddogfen derfynol yn cael ei hanfon at y Clerc yn ystod yr wythnosau nesaf. Roedd angen cysylltu â Chyngor Sir Gâr er mwyn iddyn nhw archwilio'r adnoddau chwarae. Penderfynwyd llogi toiledau gan Kangaloos o 1 Mehefin – 30 Medi 2017.

Byddai angen agor bwlch i'r cae newydd yn y man.

YSGOL SUL YR EGLWYS, LLANLLWNI - Cafwyd cadarnhad bod Meinir Evans wedi dechrau gwneud rhestr o anghenion.

CWARE MOWNT - Roedd y gwaith wedi'i gwblhau.

GWEFAN LLANLLWNI - Roedd adroddiad o gyfarfod mis Mawrth ar y wefan, ac wedi ymddangos yn Clonc ac yn Clecs Bro Cader.

CYSGODFAN BWS - Cadarnhawyd gan Linda Evans y bydd y gysgodfan yn cael ei glanhau.

SBWRIEL GER PONT Y RHEILFORDD – GWARCWM:

Doedd dim datblygiad pellach. Penderfynwyd bod Linda Evans a'r Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

NINANT – PONTDULAI – TRO BEECHES - Mae angen gosod llinellau dwbwl ac arwyddion i atal ceir rhag pasio lorïau yn y mannau hyn. Roedd y Clerc wedi e-bostio'r Cyngor Sir ond dim datblygiad pellach. Cynigiwyd gan Linda Evans y byddai yn holi am hyn eto.

LLYWODRAETHWYR YR YSGOL - Etholwyd Meinir Evans i Fwrdd y Llywodraethwyr.

LLYWODRAETH CYMRU - Cyflwynwyd y llyfryn CANLLAW'R CYNGHORYDD DA AR GYFER CYMUNED A THREF i'r Cynghorwyr.

COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDU

Penderfynwyd gan y Cynghorwyr ymgeisio am y grant i gymunedau gan gyflwyno cais yn nodi'r canlynol:

1. Prynwyd y cae chwarae er lles y gymuned.
2. Ehangwyd y cae chwarae.
3. Sicrhau diogelwch y cyhoedd wrth iddyn nhw barcio yn y cae.

Penderfynwyd cefnogi'r Diwrnod o Hwyl. Bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau'r Ysgol, y Cylch Meithrin, CFfl Llanllwni a'r Clwb ar ôl Ysgol. Penderfynwyd cefnogi'r Wyl Gerdd Dant yn Llandysul ac Urdd Gobaith Cymru, Llangrannog.

TYLLAU YN YR HEWL - Hewl gefn Ffynonddrain - Beilibedw.

Gwarcwm – Pont y Rheilffordd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 10 Gorffennaf 2017 am 8.00yh.

Clwb Clonc

Gorffennaf

£50 rhif 114 : Kay Davies, Ornant, Llanwnnen.

£50 rhif 414 : Mrs Glenda James, 55 Penbryn, Llambled.

£25 rhif 124 : Mrs Gwen Davies, Llysaeron, Llanwnnen.

£25 rhif 334 : Eysyllt a Mared Jones, Cefngwrthafarn Uchaf, Pennant.

£20 rhif 372 : Mrs Sulwen Lloyd, Ucheldir, Cwrtnewydd.

£20 rhif 183 : Mrs Gwenda George, Ceris, Teras Fictoria, Llambled.

£15 rhif 386 : Fflur Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach.

£15 rhif 143 : E.H. Evans, Nirvana, Cwmann.

£10 rhif 361 : Gwynfor Lewis, Bronwydd, Heol-y-Bont, Llambled.

£10 rhif 514 : Mrs Nelian Williams, Brongest, Heol Llanfair, Llambled.

£10 rhif 321 : Mandy Jones, Nanthendre, Llanllwni.

£10 rhif 275 : Mrs Jean Jones, Dorlan, Alltyblaca.

£10 rhif 71 : Dai Davies, Caerwenog, Penffordd.

£10 rhif 530 : Eleri Thomas, 38 Penbryn, Llambled.

£5 rhif 392 : Richard Morgan, Llys Penparc, Cae Ram, Cwmann.

£5 rhif 455 : Mrs Eleri Thomas, Blaencwmdu, Llanllwni.

Llanllwni

Cogydd o fri



Llongyfarchiadau mawr i Gwenann Fflur Lewis o Lanllwni am ennill yn Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017 yn y gystadleuaeth goginio - CogUrdd Blwyddyn 7, 8 a 9. Roedd y beirniad Beca Lyne-Perkins yn dweud ei bod yn "awsome" yn y ddau rownd a gynhaliwyd yn yr Eisteddfod.

Diolch

Dymuna Ray Harries, Castle View ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am y cardiau, anrhegion, galwadau ffôn ac i'r rhai a fu yn ymweld ar ôl y llaw driniaeth yn ddiweddar. Diolch yn fawr.



Ras Gyfnewid Cestyll Cymru oedd canolbwynt ymdrechion Clwb Sarn Helen yn ystod y cyfnod canol haf. Mae'r ras flynyddol hon yn cynnwys 20 cymal (hynny yw 20 ras) yn cychwyn yng nghastell Caernarfon ac yn gorffen yng nghastell Caerdydd. Yr oedd 66 o dimau o Gymru a Lloegr yn cystadlu eleni gan gynnwys un o Fadrid. Cynhaliwyd y deg cymal cyntaf i'r Drenwydd ar Sadwrn 10fed o Fehefin a'r deg cymal olaf yn dilyn drannoeth. Gydag anafiadau ac amgylchiadau eraill yn cymhlethu'r darlun yr oedd tasg rheolwyr tîm Sarn Helen, Lyn ac Eileen Rees, yn un anodd ond llwyddasant i faesu ugain o redwyr a gwnaethant yn arbennig o dda i orffen yn yr ugain cyntaf ar ddiwedd y daith. Eu cyfanswm amser oedd 23 awr 33 munud 21 eiliad - amser gorau'r clwb yn y ras hon - a hynny er gwaethaf anffawd gydag anaf ar gymal Mynydd Epynt. Cafwyd ymroddiad dygn gan y tîm cyfan ond clod mawr i'r aelodau ieuangaf (Aled Sion Jones yn 14eg o Gaernarfon i Benygroes, Thomas Willoughby yn 11eg o Foel i Lanfair Caereinion a Tomos Morgans 13eg o Ferthyr i Abercynon) ac i'r unig ferch yn y tîm eleni, Dee Jolly, yn 17eg o Abercynon i Nantgarw.

Ar y 6ed o Fai bu Gareth Payne yn fuddugol mewn ras fynydd hanner marathon yn y Preselau a Dee Jolly oedd y ferch gyntaf dan 35 oed yn yr un ras - cwblhawyd y cwrs anodd hwn gan ddau arall o redwyr y clwb hefyd, sef Kevin Hughes a Mitchell Readwin. Yr oedd ras 24 milltir yn cyd-ddigwydd dros yr un dirwedd gyda dau arall o redwyr Sarn Helen yn cystadlu - daeth Dan Hooper yn 5ed allan o 136 yn honno (ac yn 3ydd dros 40 oed) a Nigel Davies yn 33ain.

Ar yr 21ain o Fai cynhaliwyd Pencampwriaeth Rasio Llwybr Cymru yn Llanfair ym Muallt ac yr oedd perfformiadau Sion Price (3ydd) Dylan Lewis (5ed) a Gareth Payne (10fed a'r 1af dros 40 oed) yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i'r clwb hyd yn hyn. Daeth tîm Gorllewin Cymru'n ail yn rhinwedd eu hymdrechion ac fe ddewiswyd Sion Price i redeg dros Gymru yn Llydaw i goroni ei ymdrechion ardderchog dros y flwyddyn diwethaf. (Yn anffodus methodd fynd i Lydaw oherwydd anaf ond mae'n siŵr y daw cyfle eto.)



Nos Wener y 26ain o Fai daeth nifer dda ynghyd fel arfer i Ras y Llychau yn Nhalylychau gan gynnwys 35 o aelodau'r clwb. Un o'r rhain oedd Dylan Lewis ac fe oedd y cyntaf dros y llinell yn y ras heol 5 cilometr hon mewn 17 munud a 3 eiliad gydag Archi Morgan (14 oed) yn ail. Ymhlith y dynion dros 40 oed rhedwyr Sarn Helen ddaeth yn 1af (Gareth Payne 18:25) yn ail (Carwyn Davies 18:43) ac yn 3ydd (Mark Rivers 19:24.) Daeth gwobrau eraill i'r clwb drwy Aled Sion Jones (ail dan 18 oed) Tomos Morgans (3ydd dan 18) Huw Price (1af dros 50) David

Thomas (trefnydd y ras ac yn 3ydd dros 50) a Murray Kisbee (ail dros 60 oed.) Ymhlith y menywod daeth Delyth Crimes yn ail dros 45 oed a Dawn Kenwright yn 1af dros 55 oed. Yr oedd yr achlysur hefyd yn cynnwys ras filltir i blant dan 12 oed ac yr oedd llawer o ddosbarth ieuencid y clwb yn cystadlu gydag un ohonynt, Rhys Williams, yn ennill mewn 6 munud 21 eiliad. Ei gyd-aelod Gwenllian Llwyd Jones oedd y ferch gyntaf mewn 7 munud 35 eiliad.



I grynhoi gweithgareddau eraill aelodau'r clwb ar hyd yr wythnosau diwethaf, daeth Carwyn Davies yn 4ydd mewn hanner marathon yn Stroud ar y 7fed o Fai tra bod ei wraig Emma wedi rhedeg ras 8 milltir ar yr un achlysur crasboeth. Ar yr 28ain o Fai bu gŵr a gwraig arall o glwb Sarn Helen yn rhedeg marathon mewn gwres yn Dorchester, gyda Ken Caulkett yn dod yn 12fed allan o 700 mewn 3 awr 14 munud a'i wraig Jenny yn cwblhau ei marathon gyntaf mewn 4 awr 46 munud.

Ar yr 16eg a'r 24ain o Fai daeth Caryl Wyn Davies yn 3ydd ac yn 4ydd mewn dwy ras 5 cilometr yn Rhaeadr gan wella ei hamser gorau dros y pellter i 21 munud 3 eiliad yn yr ail ras. Aeth pump o aelodau'r clwb i ras flynyddol Penrhyn Dinas ger Trefdraeth. Enillwyd ras y merched gan Dee Jolly gyda record personol (37 munud 51 eiliad) dros y cwrs anodd hwn o bedair milltir a hanner. Daeth Tony Hall yn ail dros 60 oed mewn 41 munud

43 eiliad a Tomos Morgans yn 1af dan 18 oed (36 munud 32 eiliad) gyda Mitchell Readwin yn gorffen mewn 43 munud 16 eiliad. Croesawyd Ormond Williams yn ôl i redeg cystadleuol gan redeg hanner marathon Eryri gyda'i ferch Phoebe ar yr 20fed o Fai a ras Llyn y Fran ar y 4ydd o Fehefin. Ar y 10fed o Fehefin daeth mwy o lwyddiant i Dawn Kenwright wrth iddi ennill y dosbarth dros 60 oed yn ras 15 cilometr Llwybr Dysynni mewn awr a 14 munud.

Ar yr ail o Fehefin aeth 12 o aelodau'r clwb i ras 10 cilometr Llandeilo. Daeth Gareth Payne yn ail gan ennill y dosbarth dros 40 oed i ddynion (39:03), gyda Ken Caulkett yn 5ed (39:25) Mark Rivers yn 4ydd dros 40 (43:23) a Nigel Davies yn 5ed dros 40 (44:24.) Daeth Eleri Rivers yn ail yn nosbarth y menywod dros 35 (49:22.) Ar y 18ed o Fehefin aeth tair o fenywod y clwb i redeg ras lwybr 8 milltir a hanner yng Nghoed y Brenin ac unwaith eto daeth Dawn Kenwright yn gyntaf yn y dosbarth dros 60 oed mewn awr a 27 munud gyda Delyth Crimes yn 4ydd dros 40 (1:33) a Helen Willoughby yn 7fed dros 50 (1:42).

Yr aelod a redodd y pellaf o bell ffordd yn ystod y misoedd diwethaf oedd Nigel Davies wrth iddo wynebu'r her o redeg 145 milltir o Birmingham i Lundain yn y "Grand Union Canal Challenge" ar y 27ain o Fai. Bu rhaid iddo ildio ar ôl 45 milltir y tro hwn oherwydd anhwylder stumog ond mae hynny'n dipyn o bellter!

Aelwyd Llambled



Grŵp llefaru Aelwyd yr Urdd Llambled yn cipio'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd dan hyfforddiant Elin Williams.



Grŵp dawnsio disgo Aelwyd Llambled yn cipio'r ail wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Fe'u hyfforddwyd gan Sally Saunders.

Parti Unsain Adran yr Urdd Llambled yn cipio'r ail wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Fe'u hyfforddwyd gan Rhiannon Lewis. Y cyfeilydd oedd Lois Williams. [llun isod]





Cipiodd Faye Jones, Jessica McKay a Jasmine Jones Ysgol Bro Pedr y 3ydd wobwr fel tîm yng nghystadlu Trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr.

Ysgol Bro Pedr – Campws Iau

Daeth Mr Patterson, Miss Sarah, Canon Andy a'r Parch Presdee i wneud gwasanaethau yn yr ysgol gan gyflwyno negeseuon pwrpasol a chofiadwy iawn. Diolch iddynt am roi o'u hamser i ddod atom.

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau perfformiad o'r sioe Esgid Enfawr gan Theatr Genedlaethol Cymru.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 2 a 6 gyfleoedd i dderbyn cyflwyniadau buddiol iawn gan Hafan Cymru.

Daeth PC Alun hefyd i gwblhau sesiynau ar ddiogelwch gyda blwyddyn 6 a Nyrs Morag i drafod newidiadau yn y corff – diolch i'r ddau.

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Athletau Dyfed gan wneud yn arbennig o dda. Llongyfarchiadau mawr i Kacper ar ddod yn ail yng nghystadlu "shot" ac i Faye Jones ar ddod yn bedwerydd yn y ras redeg – arbennig.

Cafodd disgyblion yr adran iau gyfle i fynd draw i'r labordai i gael gwersi Gwyddoniaeth gan Miss Mattie Evans ac elwa'n fawr o'r profiad. Yn yr un modd bu Blynyddoedd 2, 4, 5 a 6 yn cwblhau gweithgareddau Celf amrywiol gyda Mrs Thomas – diolch i'r ddwy am roi o'u hamser.

Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu'n frwd ar ddiwrnod ein mabolgampau a diolch i Mr John am gydlynw ac i'r holl staff a fu'n paratoi ac yn cynorthwyo cyn, ac ar, y diwrnod. Fe'n tywyswyd ni drwy'r diwrnod cyfan gan Marc Griffiths a diolch iddo am wneud hynny yn effeithiol ac mewn ffordd llawn hwyl. Ar ddiwedd mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau tŷ Pedr oedd ar y blaen a chyflwynwyd y tarianau i'r Capteiniaid gan Mrs Jane Wyn. Cyflwynwyd tlysau i fabolgampwr a mabolgampwraig y flwyddyn sef Vince Mason a Faye Jones – llongyfarchiadau iddynt.



Capteiniaid ac is-gapteiniaid tŷ Pedr yn cipio'r darian ym mabolgampau Ysgol Bro Pedr.



Mrs Wyn yn cyflwyno tarian i gapteiniaid tŷ Pedr ym mabolgampau Cyfnod Sylfaen Ysgol Bro Pedr.

Bu timau pêl-droed yr ysgol yn cystadlu yn nhwrnament Ysgol Henry Richard ac yn Ysgol Carreg Hirfaen a diolch i bob aelod o staff a fu'n hyfforddi a chynorthwyo. Llongyfarchiadau i dîm y merched ar ddod yn ail yn y ddwy gystadlu ac i fechgyn blynyddoedd 3 a 4 ar ennill Twrnament Carreg Hirfaen. Daliwch ati.

Bu Mari o gwmni theatr Arad Goch yn gwneud gweithdai Drama gyda blwyddyn 1 a bu disgyblion blwyddyn 6 ar gwrs preswyl ym Mhentywyn. Cynhaliwyd diwrnod pontio i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 ysgolion y cylch.

Bu athrawon ysgolion ardal Llambled yn cydweithio i greu pecyn adnoddau cyfoethog yn seiliedig ar thema'r Llewod. Cafwyd diwrnod llawn hwyl yn perfformio'r Haca, cyfweld â Ken Owens ac yn chwarae rygbi tag. Roedd hyn yn gyfle arbennig i'r disgyblion wneud ffrindiau newydd ac i ymgartrefu cyn trosglwyddo i'r sector Uwchradd.

Diolch i Mr Roderick am drefnu ac i bawb a gyfrannodd gan wneud y diwrnod yn un hynod lwyddiannus. Mae'r disgyblion iau ar hyn o bryd yn brysur yn trefnu diwrnod Cymreig a'r Pwyllgor Cymreictod yn parhau i fod yn brysur yn codi ymwybyddiaeth ac yn pwysleisio'r pwysigrwydd o siarad Cymraeg er mwyn anelu at dderbyn Gwobr Efydd Siarter ail iaith y Sir.

Daeth tyrfa niferus ynghyd i Ffair Haf yr ysgol. Roedd rhywbeth at ddant pawb, stondinau amrywiol, bwydydd blasus, gêm, pêl-droed, a ras hwyl i enwi ond ychydig. Diolch i bawb a fu'n trefnu, yn cynorthwyo ac a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd.

Campws Hŷn

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Diolch i bawb a fu'n hyfforddi ac yn cynorthwyo'r disgyblion dros y misoedd diwethaf a diolch yn arbennig i Mrs Howard, Dr Delyth Jones, Miss Heledd Besant a Mrs Catrin Mai Davies am roi o'u hamser. Rydym yn browd iawn o bob un ohonoch.

Ar Fehefin yr 16eg bu criw o ddisgyblion blwyddyn 9, sydd wedi dewis astudio celf ar gyfer TGAU, ar daith i Ysgol Gelf Caerfyrddin er mwyn cael blas ar lu o wahanol ffyrdd o greu celf. Roedd pob un ohonynt wedi mwynhau'n fawr iawn a hoffwn ddiolch i'r Ysgol Gelf ac i'r darlithwyr am y sesiynau gwybodus.

Llongyfarchiadau mawr i Lleucu Ifans o flwyddyn 13 ar ennill yr anrhydedd o fod yn Llysgennad Hoci Ifanc y flwyddyn am 2016-17. Cyflwynodd Hoci Cymru dlws iddi mewn seremoni wobrwyo arbennig yng Nghaerdydd ar Fehefin 10fed.



Prif ddisgyblion Ysgol Bro Pedr yn cyflwyno sicg gwerth £1,196.58 i Graham Jones ar ran Beiciau Gwaed Cymru, Aberystwyth. Hon oedd dewis elusen y disgyblion eleni. Codwyd yr arian trwy gynnal nifer o weithgareddau fel stondin gacennau, diwrnod siwmpwr Nadolig, a gêm hoci'r merched a'r bechgyn. O'r chwith: Caryl Jacobs, Morgan Lewis, Rider Graham Jones, Rhys Davies, Nest Jenkins, Meirion Thomas, Alwyn Evans, Ffion Jenkins a Carie Collom.

Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro?

Ceir prisau rhesymol iawn
gan ddechrau gydag hysbyseb bach yn

£12 yn unig,

a dim ond £72 am ddeg ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk



Tîm pêl-droed bechgyn blwyddyn 3 a 4 Ysgol Bro Pedr yn ennill twrnament pêl-droed a drefnwyd gan Ysgol Carreg Hirfaen – llongyfarchiadau.



Tîm pêl-droed merched Ysgol Bro Pedr yn cyrraedd yr ail safle yn nhwrnament Ysgol Henry Richard ac yn nhwrnament Carreg Hirfaen – da iawn chi.



Fflur Meredith, Ysgol Bro Pedr yn ennill y wobwr 1af am wehyddu a'r 1af am emwaith yn yr Urdd.



Elan Jones, Ysgol Bro Pedr yn cipio'r ail wobwr yn yr Urdd am waith Dylunio a Thechnoleg.



Lola Jones Ysgol Bro Pedr yn cipio'r wobwr 1af am waith creadigol 2D yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Ysgol Cwrtnewydd

Aeth merched blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Bro Pedr am ddiwrnod i ddathlu taith Y Llewod. Perfformiodd plant Cwrtnewydd a Llanwenog ddawns yr Haca a grëwyd ganddynt o flaen llaw. Cawsant gyfle i chwarae gemau tag rygbi ac roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

Cynhaliwyd mabolgampau ola'r ysgol ar brynhawn Mercher gyda'r haul yn tywynnu'n braf arnom. Cafwyd cystadlu brwd a phawb yn mwynhau. Y tîm gwyrdd oedd yn fuddugol eleni gyda'r capteiniaid Elan Jenkins a Katy Moyes. Enillydd tarian coffa Stephen Sutcliffe am y bachgen gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau oedd Jac Rees ac enillodd Luned Jones darian goffa Ieuan Jones am y ferch gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau. Diolch i bawb a wnaeth gefnogi.



Treuliodd plant blwyddyn 5 a 6 dridiau yng ngwersyll yr Urdd yng Nghaerdydd. Cafwyd profiadau amrywiol, er enghraifft taith o gwmpas y 'Royal Mint', taith mewn cwch o amgylch y bae a chwarae bowlïo deg. Roedd y plant wedi mwynhau mas draw ond wedi blino'n lân.

Cynhaliwyd Bingo Cyloch Meithrin Gwenog yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd a braf oedd gweld y lle yn orlawn.

Cafodd plant cyfnod allweddol dau wers Wyddoniaeth gyda Mr Tim Jenkins Ysgol Bro Pedr.

Aethon ar ein trip haf blynyddol olaf i Ffatri Siocled 'Wickeley Welsh' a lle chwarae 'Merlin's Magic'. Cafodd pawb ddiwrnod arbennig ac atgofion di-ri.

Cofiwch am y diwrnod dathlu a fydd yn cael ei gynnal yn Ysgol Cwrtnewydd ar Orffennaf 16eg, croeso cynnes i bawb.

TYSTEB

Mae Mrs Gwyneth Davies yn ymddeol fel athrawes
Ysgol Gynradd Gymunedol Cwrtnewydd
ddiwedd tymor yr Haf 2017.

Fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth i'r ysgol,
trefnir tysteb i'w chyflwyno iddi ar brynhawn yr 16eg o Orffennaf yn
nhe parti dathliadau'r Ysgol am 2 o'r gloch. Mae croeso i bawb ymuno
â ni.

Cyfraniadau os dymunir i'r ysgol
erbyn Dydd Iau, y 13eg o Orffennaf 2017.

Cydymdeimlo

Danfwn ein cydymdeimlad llwyrat at Gareth a Sulwen Lloyd, Ucheldir a'r teulu ar golli ewythr hoffus iawn, sef Les Evans o Aberaeron ac yntau wythnosau yn unig o ddathlu ei ben- blwydd yn 100oed.

Pobl Cwrtnewydd

Gyda nifer o fannau cymdeithasu wedi eu cau ym mhentref Cwrtnewydd dros y blynyddodd diwethaf mae cymdeithas newydd wedi ei ffurfio o'r enw Pobl Cwrtnewydd People. Nod y gymdeithas yw hybu cyfleoedd i bobl gwrdd ac i gymdeithasu yn y gymuned. Bwriad Pobl Cwrtnewydd People yw trefnu gweithgareddau gwahanol o fewn ac o amgylch y pentref.

Yn y misoedd diwethaf mae'r gymdeithas wedi trawsnewid ciosg ffôn y pentref a'i droi yn lle i gyfnwedd llyfrau ac wedi tacluso o'i amgylch. Rydym wedi cael sawl bore coffi llwyddiannus gan gynnwys bore i gyfnwedd planhigion. Mae yna sawl gweithgaredd ar waith ar gyfer y misoedd nesaf. Gwelir y golofn Dyddiadur Clonc. Hefyd mae grŵp cymdeithasu ar wefan Facebook dan enw cymuned Cwrtnewydd community group i gadw mewn cysylltiad am digwyddiadau o fewn ac o amgylch y pentref.

Mabolgampau Cwrtnewydd

Cynhelir y Mabolgampau blynyddol ar gae'r ysgol ddydd Sadwrn, Gorffennaf 8fed am 12:00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Llangybi a Betws

Adferiad

Dymunir gwellhad buan a llwyr i bawb a fu mewn ysbyty yn ddiweddar, neu sydd mewn ysbyty o hyd. Brysiwch wella.

Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Lucy Jones, Forest Hall gynt. Bu yn wraig weithgar, yn hoff iawn o arddio, yn aelod ffyddlon o Sefydliad y Merched Llangybi ac yn aelod selog o Eglwys Betws lle claddwyd ei gweddillion ar Fehefin 16eg.

Ysgol Y Dderi



Teithiodd Lili, Gabriella, Llion, Harrison, Gruffydd a Steffan i Latfia am wythnos gyda Mrs Heini a Miss Mareid. Fel rhan o brosiect Ewropeaidd aeth y plant i gynhadledd a oedd yn trafod addysgu cerddorol yn Ysgol Jelgava. Daeth cynrychiolaeth o Wlad Groeg, Yr Eidal, Slofenia a Norwy hefyd. Buon ni'n dysgu iddynt ganu "Sosban Fach" a buon ni'n dysgu caneuon o'u gwledydd hwy, cyfanswm o chwe chan! Recordiwyd y caneuon ar CD fel ein bod ni'n medru eu rhannu gyda gweddill yr ysgol. Mae Latfia, fel Cymru yn ymfalchïo yn ei thraddodiad cerddorol a chanu. Cawsom wledd o wasanaeth croeso ac roedd safon y canu gan gôr yr ysgol gerdd leol yn wych. Buon ni'n ymweld â pharc natur Tervete a pharc antur Ledini, buon ni ar daith mewn cwch ar hyd yr afon Lielupe a chawsom gyfle i roi ein traed ym Môr Y Baltig. Cawson ni noson ddifyr iawn yng nghwmni grŵp gwerin lleol gan ddysgu caneuon a dawnsfeydd bywiog! Roedd dinas Jelgava yn dathlu ei phen-blwydd yn 752 oed ar y nos Wener felly estynnwyd gwahoddiad i ni fod yn rhan o orymdaith fawr gan gynrychioli Cymru. Roedd hi'n ffrind cael chwifio baner y Ddraig Goch a dysgu'r dorf sut i weiddi "Ogi! Ogi! Ogi!" Roedd miloedd o bobl yn bresennol. Cawsom groeso arbennig gan yr ysgol, y plant a'u teuluoedd. Oedd wir, roedd hon yn wythnos i'w chofio.



Wedi cyrraedd nôl o Latfia ar y nos Sadwrn, ymunodd Martha Haf â Lili, Gruff a Steffan yn Eisteddfod yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elai ar y dydd Mawrth, ar gyfer rhagbrawf yr Ymgom Blwyddyn 6 ac Iau. Roedd deunaw ymgom yn cystadlu ac roedd y safon yn uchel. Daeth cyffro mawr wedyn wrth iddynt sylweddoli



eu bod wedi cael llwyfan! Perfformiodd y pedwar yn gampus ac roedd hi'n bleser i'w gweld ar y teledu ac i'w clywed mewn cyfweiliad bywiog ar Radio Cymru. Daeth yr ymgom yn ail dros Gymru, gyda'r pedwar wedi cael profiadau bythgofiadwy. Diolch o galon i Elliw am ei holl help.



Roedd gwaith y disgyblion a ddaeth i'r brig dros Gymru yn cael ei arddangos yn y babell Celf a Chrefft drwy'r wythnos ar faes Eisteddfod yr Urdd. Llwyddodd yr ysgol i ennill wyth gwobr: 1af Ffotograffiaeth Bl 2 ac Iau, Osian Bird [llun ar y chwith] 1af Crochenwaith Bl 3 a 4, Rhydian, Rhun, Bledwyn a Dion; 2il Gwaith Creadigol 3D Bl 5 a 6, Briar, Lily, Christie a Chantelle; 2il Crochenwaith Bl 2 ac Iau, Lili, Leah, Sam a Charlie; 2il Creu arteffact Bl 2 ac Iau, Noah G, Caleb H, Dylan a Neo; 2il Gwehyddu Bl 3 a 4, Beca Ebenezer; 3ydd Ffotograffiaeth a

graffeg cyfrifiadurol Bl 5 a 6, Christie Boyle; 3ydd Creu arteffact Bl 3 a 4, Cerys, Zoe, Sara a Ffion. Da iawn chi blant – gwych! Cafwyd prynhawn bendigedig o fwynhau chwaraeon potes o dan arweiniad yr Urdd i blant y dosbarth derbyn, Blwyddyn 1 a 2. Cafwyd y cyfle i wella eu sgiliau mewn nifer o weithgareddau a chyfle i gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd.

Yn rhan o'u thema "Troi a Llifo" aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i Landysul Paddlers er mwyn cael profi adeiladu rafft, rhwyfo cwch a rheoli caiaic. Cafwyd diwrnod gwlyb iawn yn llawn hwyl ger yr Afon Teifi.



Aeth disgyblion blwyddyn 6 i Ddenmarc gyda Miss Rhian a Mr Dylan i ymweld ag Ysgol Dalby. Rydym wedi bod yn ymweld â'r ysgol hon ers bron ugain mlynedd, felly mae'r cysylltiad yn un agos. Roedd hedfan mewn awyren yn ddigon o antur, heb sôn am yr uchafbwynt o gael ymweld â Legoland yn Billund! Roedd yr hyn a welsom yn ddigon o ryfeddod. Cawsom ddiwrnod braf yn nhref Kolding yn ymweld â'r castell sef Koldinghus, siopa a nofio yn y pwll nofio chwaethus. Trefnwyd i ni fynd i'r traeth gyda'n ffrindiau o Denmarc ac roedd yr haul yn gwenu'n braf. Buon ni'n cael gwersi mathemateg, Saesneg a gwaith coed ar y cyd a buon ni'n cynnal gwasanaeth i'r ysgol gyfan hefyd. Wythnos o atgofion i'w trysori. Diolch i Ysgol Bro Pedr am drefnu diwrnod pontio i'r ardal gyfan. Bu'r plant yn dathlu Diwrnod y Llewod gyda llu o weithgareddau cyffrous megis perfformio'r Haka, cyfweld Ken Owens a thwrnament cyfeillgar o rygbi. Diolch o galon am y cyfle.

Llongyfarchiadau mawr i dîm criced Blwyddyn 4 Ysgol Y Dderi ar gyrraedd y rownd gyn-derfynol yng Nghystadleuaeth Criced yr Urdd, Ceredigion. Llwyddodd y plant i ennill tair gêm cyn colli yn y rownd gyn-derfynol. Da iawn chi a daliwch ati.



Mi fydd disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn mynd i Bentre Bach i aros dros nos gyda Sali Mali a'i ffrindiau cyn hir. Am antur! Dilynwch hynt a helynt eu taith ar ein cyfrif Trydar @ysgol_y_dderi

Llangybi a Betws



Treuliodd plant blwyddyn 5 dridiau yng Ngwersyll yr Urdd, Caerdydd yn mwynhau profiad dinesig, Canolfan y Mileniwm, Senedd, Techniquet, Bathdy Brenhinol Llantrisant, Sinema, Bowlio 10, Chinese a galw ar y ffordd adre yn LC2 a Stadiwm Liberty Abertawe. Tridiau prysur tu hwnt! Diolch i Anwen Eleri am drefnu'r holl weithgareddau arbennig.



I Langrannog aeth blwyddyn 3 a 4 am dridiau yn yr heulwen braf. Marchogaeth ceffyl, gwibgartio, sgïo, rhaffau uchel/isel, nofio, disgo, traeth, saethyddiaeth, beiciau modur, cwrs antur a llond JCB o joio! Diolch i holl staff y gwersyll am ein cadw mor brysur!



Yn dilyn hanner tymor o wersi beicio, bu blwyddyn 6 yn dathlu eu llwyddiant trwy fynd ar daith feicio ar hyd Cors Caron. Roedd Miss Rhian a Mr Dylan hyd yn oed wedi trefnu picnic hanner ffordd a swper yng Nghlwb Rygbi Tregaron i offren! Bendigedig.

Mae labeli poteli llaeth Calon Wen a ddyluniwyd gan Andrew o Flwyddyn 4 o'r diwedd wedi cyrraedd silffoedd yr archfarchnadoedd! Bu Andrew yn siarad yn fyw ar raglen Heno wrth i gwmni Calon Wen lansio'r label yn swyddogol. Da iawn ti Andrew.

Pob lwc i ddisgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt baratoi ar gyfer eu haddysg uwchradd ym Mro Pedr, Penglais, Aberaeron a Thregaron eleni. Cofiwch ddod nôl i'n gweld!

Dewch yn llw i "Glaston-dderi" nos Iau, 20fed o Orffennaf. Mi fydd pabell fendigedig ar gae chwarae'r ysgol, a llwyfan i berfformio amrywiaeth o gerddoriaeth gyfoes gan blant a rhieni. Bydd bwyd ac adloniant a digon o gwmni da mewn awyrgylch hyfryd. Croeso cynnes i bawb.

C.F.I. Bro'r Dderi

Mae'n rhaid dechrau trwy longyfarch Tregaron a'r sir ar gynnal rali wych. Dwi'n siŵr fod pawb yn gytun ei fod yn ddiwrnod hwylus a llwyddiannus.

'Naeth ein clwb gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau, a phob aelod yn cael y cyfle i gymryd rhan. 'Naethon ni gystadlu yn y barnu stoc, crefft, gosod blodau, trin gwlân, cneifio, gêm yr oesoedd, coginio, dylunio cit chwaraeon newydd, gwisgo i fyny ac arddangosfa'r prif gylch. Rhaid llongyfarch pawb am gystadlu a cymryd rhan.

Llongyfarchiadau mawr i Elliw Dafydd o'r clwb a gafodd y wobwr gyntaf am osod blodau ac sydd felly yn mynd ymlaen i'r Sioe Frenhinol. Pob lwc i ti yno! Cafodd y clwb yr ail wobwr yn arddangosfa'r prif gylch ac fe 'naeth Matt a Iestyn gael y trydydd safle yng nghystadleuaeth gêm yr oesoedd. Fe dderbynion ni amryw o wobrau eraill yn ystod y dydd, felly da iawn bawb.

Da iawn i rai o'n haelodau ifanc hefyd a fuodd yn DJs i noson y rali yn fferm Caebwd. Roeddem yn proud iawn ohonoch ac fe 'naethoch set dda.

Ar ôl rali a noson lwyddianus 'naeth rhai o'n haelodau fynd i Gymanfa'r rali a rhaid llongyfarch y sir a Tregaron unwaith yn rhagor am gynnal noson hwylus dros ben lle roedd yn braf dathlu rali lwyddiannus a'r sir yn dod at ei gilydd unwaith eto.

Roedd yn braf i rai o'n haelodau ar ddiwrnod y rali fod yn rhan o gyflwyno siec sylweddol i'r Beiciau Gwaed ar ôl sialens y cadeirydd. Llongyfarchiadau unwaith yn rhagor i bawb 'naeth gymryd rhan a chodi cymaint o arian at achos da.

Rhaid llongyfarch Felinfach ar ennill y rali ac rydym yn edrych ymlaen yn barod at 2018 a chael y rali daflad carreg o'n clwb. Da iawn chi. Braf cael y rali yn symud o gwmpas y sir ac yn ymweld ag ardaloedd newydd.

Ar ôl y rali cafodd pawb hoe fach cyn mynd ymlaen i ddigwyddiad nesaf y sir, sef Rygbi 7 bob ochr. Noson llawn sbort a gweithio fel tîm. Llongyfarchiadau mawr i'n tîm merched a bechgyn a ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth a phob lwc i ddau o fechgyn y clwb a gafodd eu dewis i fynd i rownd nesaf ymarferion y sir ar gyfer y Sioe Frenhinol.

Rhaid estyn gair o longyfarchiadau mawr i un o aelodau'r clwb, Rhys Douglas, ar ennill cystadleuaeth gneifio yr adran CFFI yn Stafford ac yng Nghernyw. Da iawn, ti. Mae'r clwb yn falch iawn ohonot ti.

Pob lwc a phob hwyl i Elliw Dafydd o'r clwb sydd ar daith yn yr Alban y mis yma yn cynrychioli Cymru gyda'r Cffl. Gobeithio i ti gael amser llawn sbort. Rydym yn edrych ymlaen at glywed amdano.

Mae'r clwb yn cwrdd ar nos Lun yn ysgol y Dderi Llangybi – croeso cynnes i unrhywun sydd am ymuno â'r Clwb gysylltu ag un o'n swyddogion am y flwyddyn: Cadeirydd - Nia Gwyther; Is-gadeirydd - Lowri Pugh-Davies; Ysgrifenyddes - Carys Mair Jones.

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr,
Llanbed

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbed



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbed, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewies.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO
AA

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Chwaraeon C.Ff.I Sir Gâr

Ddiwedd mis Mai cafwyd noson o gystadlu brwd rhwng 5 o dimau yng nghystadleuaeth Rygbi 7 bob ochr y Sir ar gaeau Clwb Rygbi Nantgaredig.

Cafwyd gemau cyffrous ac agos iawn rhwng y timau i gyd gyda sawl tîm ac unigolyn yn dangos eu talent trwy gydol y noson. Roedd hi'n agos iawn ar frig y tabl rhwng Clwb San Pedr a thîm San Ishmaels/Penybont ond San Pedr a ddaeth i'r brig gan ennill pob gêm. Da iawn iddynt hwy a gweddill y timau am noson wych o rygbi.

Diolch yn fawr iawn i'n dyfarnwyr sef Mr Richard Thomas a Mr Phil Pexton a hefyd i Miss Ruth Morgan am fod yng ngofal y cymorth cyntaf. Mae'n rhaid diolch yn fawr iawn hefyd i Glwb Rygbi Nantgaredig am adael i ni ddefnyddio eich cyfleusterau gwych, yn ogystal â gwerthu bwyd a diod ar y noson.

Pob lwc i'r 10 unigolyn fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn nghystadleuaeth Rygbi 7 bob ochr Cymru yn y Sioe Frenhinol ddiwedd mis Gorffennaf.

Cafwyd noson braf a hwylus arall ddechrau mis Mehefin ar gaeau Cyfleusterau Chwaraeon Tregib, Ffairfach, Llandeilo gyda chystadlu brwd rhwng clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr yn y cystadlaethau Pêl-droed 5 bob ochr, Pêl-rwyd Merched a Rownderi Iau.

Gwelwyd 8 tîm yn y gystadleuaeth Pêl-droed i'r aelodau rhwng 16 a 26 mlwydd oed gyda dau grŵp o bedwar. Yn y rownd gynderfynol gyntaf roedd aelodau o Glybiau Llanfynydd ac Abernant yn erbyn aelodau o Lanllwni a Chapel Iwan. Cafwyd gêm agos iawn ond yn y munudau diwethaf fe lwyddodd Llanfynydd/Abernant i sgorio gôl i ennill y gêm. San Clêr a Llangadog oedd yn brwydro yn y gêm arall gyda San Clêr yn ennill yn gyfforddus o 5 gôl i 0. Cafwyd ffeinal da iawn gyda'r ddau dîm yn haeddiannol iawn o fod yn y ffeinal. Llanfynydd/Abernant oedd yr enillwyr ar y diwedd.

Yn y gystadleuaeth Pêl-rwyd i ferched rhwng 16 a 26 mlwydd oed 5 tîm oedd yn cystadlu: Llangadog, Penybont, Lanllwni, San Clêr, Swyddfa 1 a Swyddfa 2. Chwaraeodd pob tîm yn erbyn ei gilydd mewn cystadleuaeth agos iawn. Swyddfa 2 a Phenybont oedd y ddau dîm ar y brig i ddechrau, ond erbyn diwedd y cystadlu Swyddfa 2 a ddaeth i'r brig. Da iawn.

9 tîm oedd yng nghystadleuaeth y rownderi iau i aelodau rhwng 10 ac 16 oed. Llangadog, Llannon/Cynwyl, Llandeilo, San Clêr, San Pedr, Llanddarog, Cwmann, Dyffryn Tywi ac Abernant. Cafodd y gystadleuaeth ei rhannu yn 2 grŵp gyda'r ddau dîm ar y brig yn wynebu eu gilydd yn y ffeinal. Llangadog a Dyffryn Tywi oedd enillwyr eu grŵp ac roedd hi'n gêm agos iawn yn y ffeinal gyda Dyffryn Tywi yn ennill o hanner rownder gyda'r gêm yn gorffen yn 5 ½ i 5 rownder.

Da iawn, bawb, am gynrychioli eich clwb ar y noson. Diolch yn fawr iawn i'r dyfarnwyr am roi eu hamser a hefyd i'r holl stiwardiaid. Pob lwc i'r unigolion fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn niwrnod chwaraeon Cymru ddiwedd mis Mehefin.

C.Ff.I. Ceredigion

Dyma fis arall wedi gwibio heibio ym mywyd y C.Ff.I., gyda holl aelodau'r sir yn prysur baratoi tuag at un o uchafbwyntiau'r mudiad, sef Rali'r Sir.

C.Ff.I. Tregaron, enillwyr llynedd oedd â'r dasg anferth o lwyfannu pinacl blwyddyn o gystadlu.

Cynhaliwyd y Rali ar y 3ydd o Fehefin, ar gaeau fferm odidog Dolyrychain, drwy garedigrwydd Mrs Iris Davies, Ifan, Iona a'r teulu. Dwi'n siŵr bod pawb yn cytuno ei fod yn lleoliad delfrydol.

Tyrrodd cannoedd o gefnogwyr i brofi cystadlu ar ei orau, o farnu stoc i ddawnsio, o ganu i dynnu rhaff.

Yn cipio'r wobr gyntaf ar ddiwedd y dydd, am y tro cyntaf erioed, roedd C.Ff.I. Felinfach. Longyfarchiadau gwresog i chi. Edrychwn ymlaen at ymweld â Dyffryn Aeron ymhen blwyddyn.

Chwaraeon oedd thema'r dydd, ac edrychwn ymlaen at weld y buddugwyr yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf.



Brenhines 2017 – 2018, Esyllt Ellis Jones, Llangwryfon, yn derbyn ei choron gan Lywydd y Rali, Mr. Tom Rees. Ymunodd Tom â mudiad y CFFI yn 1949 ac mae ond wedi methu'r Rali ddwy waith ers hynny.

Diolch i Brif Noddwr y Rali sef DAG Jones & Son.

Diolch yn fawr iawn i Anne a Tomos sydd wedi bod yn gweithio'n ddiwyd dros yr wythnosau diwethaf i sicrhau diwrnod llwyddiannus.

Uchafbwynt y dydd oedd croesawu swyddogion newydd y sir i'r llwyfan, sef ein dirprwyon gwrywaidd cyntaf, Aled Davies, Caerwedros a Steffan Nutting, Talybont ynghyd ag Elin Jones, Llanwenog ac Angela Evans oedd ar stepen ei drws yn Nhregaron. Yn ymuno â'u dirprwyon roedd Ffermwr Ifanc newydd y Sir, Morys Ioan, Caerwedros ac Esyllt Ellis Jones, Llangwryfon sef Brenhines newydd y Sir.

Ar ôl diwrnod llwyddiannus, pa ffordd well i ddathlu llwyddiant nag yn y ddawns a gafodd ei chynnal ar fferm Caebwd, drwy garedigrwydd Mr a Mrs Alun a Llinos Jones a'r teulu.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i Glwb Tregaron am eich paratoi trwyadl er mwyn sicrhau diwrnod bythgofiadwy.

Enillwyr y dydd:

Arddangosfa Ffederasiwn – Trisant; Barnu Gwartheg Limousin

16 oed neu iau – Bedwyr Siencyn, Talybont; 21 oed neu iau – Sioned Evans, Llanddewi Brefi; 26 oed neu iau – Dyfrig Williams, Llangwryfon; Unigolyn Uchaf – Dyfrig Williams, Llangwryfon; Tîm buddugol Llanddewi Brefi; Dylunio Cit Chwaraeon – Felinfach; Coginio – Sioned Owen a Delyth Williams, Lledrod; Gosod Blodau – Elin Dafydd, Bro'r Dderi; Crefft – Sioned Morris, Llangwryfon; Cystadleuaeth yr Aelodau – Llangwryfon; Dawnsio – Felinfach; Sylwebaeth Fyw – Iwan Davies a Gareth Jones, Llanddewi Brefi; Dyma Dy Fwyd – Llangwryfon; Coedwigaeth – Penparc; Barnu Defaid Suffolk – 16 oed neu iau – Bedwyr Siencyn, Talybont; 21 oed neu iau – Gwenno Evans, Talybont; 26 oed neu iau – Dewi Jenkins, Talybont; Unigolyn Uchaf – Bedwyr Siencyn, Talybont;

Tîm – Talybont; Trin Gwlân – Angharad Davies, Trisant ac Eleri Lloyd-Jones, Pontsian; Gêm y Cenedlaethau – Llanddewi Brefi; Gwisgo i Fyny – Llanwenog; Canu – Talybont; Cneifio Defaid 21 oed neu iau – Steffan Jenkins, Llanwenog; 26 oed neu iau – Dewi Jenkins, Talybont; Tîm – Talybont. Barnu Cobiau Cymreig Adran D – 16 oed neu iau – Ela McConochie, Felinfach; 21 oed neu iau – Eiry Williams, Llangwryfon; 26 oed neu iau – Ceris James, Mydroilyn; Unigolyn Uchaf – Ela McConochie, Felinfach; Tîm – Felinfach; Brwydr 'Lip Sync' - Llanwenog; Arddangosfa'r Prif Gylch – Llanddewi Brefi; Tablo – Lledrod a Felinfach; Tynnu'r Gelyn: Merched – Llanddewi Brefi; Tynnu'r Gelyn: Bechgyn – Llanwenog; Tynnu'r Gelyn: Iau – Llanwenog; Gwneud Arwydd – Llanddewi Brefi; Barnu Stoc –

Unigolyn Uchaf 16 oed neu iau – Bedwyr Siencyn, Talybont; Unigolyn Uchaf 21 oed neu iau – Eiry Williams, Llangwryfon; Unigolyn Uchaf 26 oed neu iau – Dyfrig Williams, Talybont; Unigolyn Uchaf yn y Barnu Gwartheg – Dyfrig Williams, Llangwryfon; Unigolyn Gorau am y rhesymau yn Gymraeg – Bedwyr Siencyn, Talybont; Clwb Gorau yn y Barnu Stoc – Llangeitho; Ffermwyr Gorau'r Flwyddyn – Esyllt Ellis-Jones, Llangwryfon a Morys Ioan, Caerwedros.

Anrheg Goffa W.G.Hughes & W.D. Lewis – Bethan Roberts, Mydroilyn a Dewi Jenkins, Talybont.

Ysgrifennydd Clwb Gorau – Helen Lewis, Llangwryfon;

Aelod a dreuliodd yr amser hiraf ar daith ryngwladol – Elin Haf Jones, Llanwenog; Aelod mwyaf gweithgar y flwyddyn – Caryl Vaughan, Llanddeiniol a Meira Lloyd, Llangeitho; Aelod iau mwyaf gweithgar y flwyddyn – Alaw Mair Jones, Felinfach;

Clwb gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2016/17 – Buddugwyr – Llanwenog; Ail fuddugol – Mydroilyn; Y clwb "bychan" gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2016/17 – Llanddeiniol;

Canlyniadau Terfynol y Rali:

1. Felinfach; 2. Llanddewi Brefi; 3. Llangwryfon; 4. Lledrod; 5. Pontsian; 6. Trisant; 7. Llanwenog; 8. Talybont; 9. Penparc; 10. Mydroilyn.

Cymanfa'r Rali

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu lwyddiannus yng Nghapel, Tregaron gyda Catherine Hughes a Manon Mai Rhys-Jones yn cyd-arwain ac Alice Jones a Manon Jones yn cyd-gyfeilio. Artistiaid y noson oedd disgyblion Ysgol Gynradd Henry Richard ac aelodau Clwb Tregaron. Llywydd y noson oedd Mrs Anné Lloyd, Fflur, Tregaron. Cafwyd gwledd fendigedig yn Neuadd Tregaron ar ôl y Gymanfa; diwedd glo perffaith i benwythnos prysur.

Sioe Aberystwyth

Diolch i bawb ddaeth i ymweld â stondin C.Ff.I Ceredigion yn Sioe Aberystwyth. Braf oedd gweld cymaint o wynebau cyfarwydd. Fel sy'n draddodiad bellach, cafodd Swyddogion newydd y sir daith o gwmpas maes y Sioe mewn cerbyd vintage arbennig.



Aelodau CFfI Ceredigion yn dilyn eu taith feics noddedig - 'Seiclo'r 75: Cwrs y Cardis' - i ddathlu pen-blwydd y mudiad yn 75 a chodi arian at Feiciau Gwaed Cymru. Yn Rali'r Sir cyflwynwyd sicg gwerth £4,765 i Medwyn Parry, cynrychiolydd rhanbarthol Beiciau Gwaed Cymru gan Mererid Davies, Cadeirydd y Sir.



Tîm Rygbi Merched C.Ff.I. Bro'r Dderi yn dathlu wedi ennill y gystadleuaeth Rygbi y Sir yn ddiweddar.

Cwrs y Cardi

Pleser yw cyhoeddi ein bod wedi codi'r swm anrhydeddus o £9,530 yn ystod ein her seiclo. Mae'r swm yn cael ei rannu'n hafal rhwng Beiciau Gwaed Cymru a C.Ff.I. Ceredigion.

Diolch yn fawr iawn i aelodau, rhieni, a ffrindiau'r mudiad am gefnogi'r digwyddiad. Braf iawn oedd cymryd rhan gyda'n gilyd mewn digwyddiad i'r sir a gobeithio'n fawr y byddwn yn cael y cyfle i wneud gweithgareddau tebyg yn y dyfodol. Cyflwynwyd sicg am £4,765 i Beiciau Gwaed Cymru ddiwrnod y Rali.

Rygbi 7 bob ochr

Cafwyd noson a hanner yng nghlwb rygbi Llambled ag aelodau'r sir yn dod at ei gilydd i ddangos eu doniau'n chwarae rygbi. Roedd timoedd y bechgyn yn brwydro am eu safle i gynrychioli Ceredigion yn nhîm y sir yn y Sioe Frenhinol. Yn cyrraedd y brig eleni oedd tîm cymysg Bro'r Dderi a Pontsian.

Diolch yn fawr i'r sgowtiaid, Dan Downes ac Euryl Rees am ddewis carfan o chwaraewyr i gynrychioli Ceredigion yn y Sioe Fawr.

Yn ogystal â'r bechgyn, roedd cyfle i'r merched gystadlu yn y gystadleuaeth Rygbi TAG. Braf oedd gweld y gystadleuaeth yn mynd o nerth i nerth gyda 5 o dimoedd yn cymryd rhan. Dyma'r canlyniadau:

Gydradd 1af: Bro'r Dderi a Mydroilyn; 3ydd: Caerwedros

Dyddiadau i'r dyddiaduron: 13 Gorffennaf – Pwyllgorau'r Sir; 24-27 Gorffennaf – Sioe Frenhinol Cymru.

Llanfair Clydogau

Gŵyl Gwrw

Unwaith eto, am yr unfed tro ar ddeg, cynhaliwyd Gŵyl Gwrw Llanfair dros dri diwrnod ddechrau mis Mehefin. Fel arfer buom yn lwcus i gael tywydd arbennig, a bu hyn yn help i ddenu nifer fawr o bobol, llawer ohonynt yn dod o du allan yr ardal. Ar y nos Sadwrn cafwyd barbeciw llwyddiannus iawn gyda bwyd o'r safon uchaf. Trefnwyd y noson, fel arfer, gan Lesley Stevens a Glennis Gratwick gyda chefnogaeth eu teulu a'u ffrindiau sydd wedi bod ynghlwm â'r wyl ers y dechrau.

Cynigiwyd tua deg math o gwrw a seidir Cymreig gyda phawb wedi mwynhau y cyfle i gael blasu'r gwahanol rai. Diolch i bawb a fu wrthi yn paratoi y bwyd neu'n helpu mewn unrhyw ffordd. Cafwyd tair noswaith o gymdeithasu arbennig gydag elw da yn mynd i gronfa'r neuadd.

Taith Gerdded

Bob hyn a hyn mae taith gerdded yn cael ei threfnu i blwyfolion y

pentre a'u ffrindiau gan Eleri Davies, Pentre. Y tro yma cafwyd taith mwy anarferol gyda phawb yn dechrau o neuadd Llanfair a cherdded ar hyd yr hewl i Eglwys Cellan. Yno, i gwrdd â ni, roedd John Metcalf, i roi hanes diddorol iawn hen, hen Eglwys Cellan. Ein syndod mawr oedd fod rhai o Lanfair heb erioed fod y tu mewn i'r eglwys er yn byw yn yr ardal ers blynnyddoedd. Ar ôl sgwrsio ac edrych ar harddwch yr adeilad a'r fynwent, dechreuwyd ar y daith nôl i Eglwys Llanfair lle roedd Alan Leech yn ein disgwyl gyda llawer o hanes yr Eglwys a'i chymeriadau. Ar ôl hyn oll roedd pawb yn barod am banded ac i'r neuadd yr aethom i gael bwyd hyfryd wedi ei baratoi gan Eleri, gyda llawer o ddiolch iddi. Daeth mwy ynghyd nag erioed o'r blaen a phawb yn gofyn pryd bydd yr un nesaf.

Neuadd y Pentre

Mae llawer o welliannau wedi cael eu gwireddu yn y neuadd yn y misoedd diwethaf.

Rydym wedi cael cegin newydd

hyfryd iawn ac ar hyn o bryd rydym yn disgwyl i'r llawr sychu er mwyn cael gosod llawr newydd. Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r toiledau hefyd. Er mwyn gwella'r cyfleusterau i'r rhai sy'n defnyddio'r neuadd mae wi-fi Band Eang Cymru ar gael yno yn ddi-dâl. Ar hyn o bryd mae project y Rhyfel Byd Cyntaf yn mynd ymlaen, gyda dau gyfarfod wedi eu cynnal i roi cyfle i bobol weld y cynllun. Mae rhagor o gyfarfodydd i ddod. Y cynghorwyr cymuned sydd wedi eu hethol yw Alan Leech, Tanyresgair; Dai Jones, Llanfair Fach; Arwyn Evans, Llanfair Fawr, a Glennis Gratwick, Sŵn y Ddôl.

Eglwys Llanfair

Er gwybodaeth, sylwch fod yr oedfaon yn Eglwys Llanfair ar y Sul cyntaf a'r trydydd bob mis wedi newid i ddechrau am 11.15 y.b.

Clwb Garddio'r Pentref

Ddydd Sul Mehefin 25ain aeth grŵp bach o saith ohonom i weld

Gerddi Agored Aberarth am y prynhawn. Cawsom wledd a gweld gerddi o bob math, yn wir pymtheg ohonynt, gyda phob math o blanhigion yn cael eu tyfu. Cyn dechrau ar ein taith o amgylch cawsom groeso cynnes yn y neuadd gyda chacen gartre a phaned o de. Prynawn o fwynhad arbennig.

Gwellhad Buan

Hoffem ddymuno gwellhad buan i Sarah Evans, Tynewydd sydd yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd. Gobeithio y gwelwn hi gartref wedi gwella cyn bo hir.

Beth sy' nesa?

Taith gerdded ym mis Awst -- dyddiad i'w benderfynu.

Gorffennaf 6ed - Darlith gan Lester Mason o Goleg y Drindod Dewi Sant ar Ddechreuad 11/11 - Darllen y Gofgolofn a Defodau Coffa.

Awst 28ain Dydd Llun Gŵyl y Banc - Sioe y Pentref a Ras Hwyaidd. Bydd y Rhaglen yn Siop y Pentre yn fuan.

Drefach a Llanwenog

Cwis

Cynhelir noson cwis yn Neuadd y Pentref, Drefach, bob nos Fercher olaf yn y mis, - ac eithrio mis Rhagfyr, - am 7 yh. Timau hyd at 6 mewn rhif - £2 y person. Gwobrau ariannol.

Dewch â lluniaeth ysgafn a diod gyda chi, ond gofalwch mynd â'ch sbwriel adref !

Parti yn y Parc

Mae Clwb Cledlyn yn trefnu Parti mawr ym Maes Chwarae Drefach, ddydd Sadwrn, Awst 5ed, i ddechrau am 6.30 yh. Pawb i ddod â phlatiaid o fwyd a diod.

Bydd yna grŵp lleol o Lambed, y Golden Geckos, yn diddanu gyda chaneuon gwerin, pop, a roc ysgafn, yn Gymraeg a Saesneg, i gyfeiliant gitar.

Codir tâl mynediad o £5, a bydd elw'r noson yn mynd i goffrau'r maes chwarae. Dewch at eich gilydd i fwynhau!

Y Gymdeithas Hŷn

Wedi pythefnos o dywydd oer a gwlyb, bu'r aelodau'n ffodus i gael diwrnod eithriadol o braf ar gyfer trip mis Mehefin. Arhoswyd yng Nghanolfan Arddio Y Pil am goffi a the, ac wedi ysbaid yno, ymlaen i Ddyffryn Gwy. Bu cyfle i fwynhau'r olygfa yn Tintyrn tra'n cael lluniaeth ysgafn yn gynnar y prynhawn, cyn teithio drwy gyrion Coedwig Dena i safle arbennig ar glogwyn Symonds Yat. Roedd yr olygfa yn arbennig dros Afon Gwy a llawer o bobol yno â'u sbieinddrych yn gwyllo nyth yr Hebog Dramor (Peregrine Falcon).

Lawr wedyn at lan yr afon a gweld cychod pleser yn mynd yn hamddenol ar y dŵr.

Teithio nôl i Westy'r Plough yn Rhosmaen i swper a chael gwledd ragorol fel arfer yno. Dymunodd Dilwen George, y Cadeirydd, ben-blwydd hapus i'r aelodau sy'n dathlu yn ystod y mis, a gwellhad buan i'r rhai sydd heb fod yn hwylus, ond gwelwyd eisiau cwmnïaeth un o'r aelodau ffyddlon a gollwyd yn ystod mis Mai. Cydymdeimlwyd yn ddwys â Rosie yn ei phrofedigaeth o golli Rod, ac hefyd â Dai ei frawd.

Bydd trip mis Gorffennaf yn mynd i Harlech ar y 12fed o'r mis. Enwau i Yvonne - 4804590.

Sefydliad y Merched

Aelod o Sefydliad y Merched, Llanwenog oedd y siaradwraig ym mis Mehefin, sef Sian Davies a fu yn Bennaeth ar Ysgol Wirfoddol Llanwenog am ddeuddeg mlynedd.

Cafwyd braslun o hanes addysg yn gyffredinol gan gynnwys yr ysgol fach ym Mhentre Rhys a chyfeiriad at Frad y Llyfrau Gleision.

Yn 1865 rhoddodd y Parch Daniel Bowen, Waunifor, £400 i sefydlu ysgol i blant tlawd y Plwyf. Adeiladwyd yr ysgol ar y llethr nesaf at fferm Tŷ Cam ac agorwyd yr ysgol ar y 7fed o Ionawr, 1867 - pedwar bachgen oedd yno ar y bore cyntaf. Bu sawl athro yn dod a mynd am y 30 mlynedd nesaf ond yn 1897 daeth John Williams Jones yn bennaeth, a bu ef yno hyd 1933 gan roi sefydlogrwydd i'r ysgol.

Yn 1946 cafodd y plant laeth bob dydd a dechreuwyd cinio ysgol yn 1948. Yn ôl y llyfr log, yn 1956 cafwyd cyflenwad trydan a dŵr i'r ysgol a thŷ'r ysgol, ac yn 1987 y cyfrifiadur cyntaf!

Ers dechrau Sefydliad y Merched saithdeg o flynyddoedd yn ôl, maent wedi cael cysylltiad agos â'r ysgol, ac fel diolch am gael cynnal eu cyfarfodydd yno buont yn mynd â'r plant ar wibdaith mewn bws i draeth Poppit! Yn y saithdegau rhoddwyd ffrâm ddringo i'r ysgol. Nes ymlaen pan aeth yn rhy ddud i logi bws penderfynwyd helpu gyda'r mabolgampau, ac hyd heddi mae SyM yn rhoi rhubanau i'r plant am y rasys ac yn paratoi te i'r plant. Gwnaethant hyn am y tro diwethaf y mis yma. Trist meddwl fod yr ysgol yn cau ar ôl 150 o flynyddoedd ond mae llawer o atgofion melyn am yr ysgol fach Eglwysig mewn cymuned glos.

Eglwys Santes Gwenog

Mis o weithgareddau fydd mis Gorffennaf eleni!

Dydd Sul, y 9fed o'r mis, cynhelir prynhawn cerddorol yn yr Eglwys am 5 ym pan fydd pedwardeg o offerynwyr dawnus o wlad Belg yn ein diddori. Maent yn ymweld â Chymru, gan fod yna gysylltiadau arbennig rhwng y ddwy wlad. Mae Hedd Wyn wedi ei gladdu mewn mynwent filwrol nid nepell o'u pentref, a chofiwn yn y gymuned yma am Henry Evans, Penrhiw, Llanllwni sy'n gorwedd yn yr un fynwent, yn wir, yn yr un rhes â Hedd Wyn. Bu'r ffoadur Joseph Reubens yn Henadur yn eu pentref am rai blynyddoedd, a gwaith cywrair y crefftwr dawnus hwnnw sydd yn harddu eglwys Llanwenog.

Bydd y gerddorfa hefyd yn ymweld â'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn, y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, a'r Senedd yng Nghaerdydd. Croeso cynnes i bawb ddod i wrando ar y gerddorfa. Pris mynediad £5.

Nos Wener, 14eg, cynhelir noson Cwis, Caws a Gwin yn yr Eglwys fach am 7yh.

Dydd Sul 16eg, Cymanfa Ganu'r Ddeoniaeth yn Eglwys Sant Pedr, Llambod am 2.30 ym.

Dydd Sul 30ain, estynnwn groeso i bawb i ymweld â'r eglwys rhwng 2-4 ym. Bydd hwn ar ffurf 'Prynhawn Agored' gyda chyfle i ddarganfod rhywbeth am y gwasanaethau gwahanol a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn fisol. Bydd yna arddangosfeydd o gwmpas yr Eglwys, a lluniaeth i bawb drwy gydol y prynhawn.

Bydd aelodau'r eglwys yn dosbarthu llawlyfr i bob cartref yn y Plwyf. Gobeithio y cewch fwynhad o'i ddarllen a gwerthfawrogi'r adeilad hardd ac hanesyddol sydd gennym.

Cofiwn am aelodau a ffrindiau sydd yn anhwylyd, yn eu cartrefi neu mewn ysbyty, ac yn yr un modd am bawb sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Clwb 100 yr Eglwys. Mis Mai: 1. Alfie Clark, Llambod; 2. Carys Jones, Cefnruddlan; 3. Janet Davies, Llys-y-Wawr.

Mab bach

Llongyfarchiadau i Meinir ac Andrew Davies, Cloch-yr-Ŷd ar enedigaeth mab bach, Griff Ceredig, ddiwedd mis Mai. Dymuniadau gorau i chi fel teulu bach. Hefyd, i Ieuan a Jane Jones, Pwllbilwg ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Stanley a May Griffiths, Blaenpant ar ddathlu eu Priodas Ruddem ddydd Sul, Mehefin 11eg. Dymuniadau gorau i chi am flynyddoedd eto.

Gwellhad Buan

Treuliodd John Davies, Bwlchmawr gyfnod yn ysbytai Glangwili a Threforys yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn well erbyn hyn.

Pen-blwydd Arbennig

Diwedd mis Mehefin dathlodd Gareth Davies, Maesglas ben-blwydd arbennig. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

C.Ff.I. Llanwenog

Ddydd Sadwrn y 3ydd o Fai, cynhaliwyd rali'r sir yn Nhregaron. Bu'r clwb yn cystadlu yn y gwahanol gystadlaethau. Dyma rai o'r canlyniadau – Gwisgo i fyny 1af; Cneifio 21 oed nau iau – Steffan Jenkins 1af; Brwydyr 'Lip sync' 1af; Ceginio yn gydradd 3ydd. Hefyd ar ddiwedd y dydd fe gyflwynwyd cwpan Gwynne Davies i'r clwb, sef y cwpan i'r clwb gorau yn holl gystadlaethau'r sir am y flwyddyn 2016/17. Daeth y clwb yn 7fed ar ddiwedd y dydd.

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan y clwb sef www.cffillanwenog.co.uk



Tynnu'r Gelyn bechgyn hŷn 1af; Tynnu'r Gelyn iau 1af

Cartref Newydd

Gobeithio y bydd Andrew, Caryl a Hari Jac yn setlo yn eu cartref newydd yn Glynfaes. Hir oes a hapusrwydd i chi yno.

Hefyd dymunwn yn dda i Llyr, Cerys a'r tri phlentyn wrth iddynt ymadael â Glynfaes a symud lan y rhiw i'w cartref newydd - gobeithio adeg gwyliau'r Haf. [Ond ar hyn o bryd yn byw gyda rhieni Cerys yng Nghwmsychpant nes daw trefn ar bethau].

Cydymdeimlo

Danfornwn ein cydymdeimlad llwyraf at Paul a Kloe Hands, Broeion ar golli ei mam, Kathy, a oedd yn byw yn Alltyblaca.

Hefyd cydymdeimlir gyda John a'r teulu, Tantara ar golli priod a mam annwyl, sef Pat a fu farw yn ystod y mis.

Drefach a Llanwenog

Llongyfarchiadau

Clywsom y newyddion am Dafydd Rhys Thomas gynt o Fferm Llechwedd ar gael ei ddyrchafu yn 'Global Education Manager' i gwmni GHD – da iawn ti Rhys am hedfan fflag Cymru fach a thithau yn Gymro pur.

Llwyddiant Eisteddfod

Cafodd Elen a Fflur, Rhyd-y-felin llwyddiant yng Ngŵyl Fawr Aberteifi ar ddechrau mis Gorffennaf. Da iawn chi ferched.

Ysgol Llanwenog

Cafwyd diwrnod mabolgampau penigamp yn yr ysgol yn ddiweddar. Roedd y tywydd yn fendigedig a'r cystadlu yn frwd. Tîm Gwennog o dan gapteniaeth Luke White - Tune a Cledlyn yn cael eu harwain gan Elen Morgan. Diolch yn fawr iawn i aelodau'r WI am baratoi ac am gyflwyno rhubanau i'r athletwyr buddugol. Mae hyn yn draddodiad sy'n ymestyn yn ôl dros 70 o flynyddoedd bellach. Ar ddiwedd y dydd tîm Gwennog aeth â hi a derbyniodd Luke y darian oddi wrth Gadeirydd y WI. Yn dilyn hyn cyflwynwyd tlysau gan Eleri, ein cogyddes amryddawn, i'r unigolion gorau yn ystod y dydd. Pencampwraig y Cyfnod Sylfaen oedd Fflur Morgan, yn yr ail safle roedd Llywelyn Gregson ac yn gydradd drydydd roedd Erin Potter Jones ac Ethan Rees.

Yng nghystadleuaeth y Plant Iau, Harri Rivers oedd y pencampwr ac yn ail roedd Elin Lloyd ac aeth y drydedd wobwr i Hannah Ayonoadu. Cafodd pawb wledd o ddanteithion blasus i ddilyn, hwn eto wedi ei baratoi gan aelodau'r WI. Diolch yn fawr iawn.

Bu P C Alun ar ei ymweliad olaf â'r ysgol i drafod Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol gyda'r plant. Dymunwn yn dda iddo ar ei

ymddeoliad a diolch yn fawr iddo am ei waith pwysig a chyson.

Bu aelodau o Gyngor yr Ysgol yn brysur yn rhoi cyflwyniad am eu gweithgareddau yn ystod y flywyddyn i'r Llywodraethwyr. Roeddent wedi paratoi cyflwyniad pwerbwynt yn llawn lluniau, sain a chlipiau amrywiol. Roedd yn berfformiad graenus dros ben a diolch yn fawr i Elen, Teleri a Hannah am baratoi mor drwyadl ac am gyflwyno a thrafod mor aeddfed ac mor hyderus.

Gwelwyd torfeydd sylweddol yn cymryd mantais o'r cyfle i gael troedio o gwmpas ein hysgol ardal newydd sef Ysgol Dyffryn Cledlyn, a phawb yn rhyfeddu at yr adeilad ysbennnydd, newydd.

Cofiwch am y dyddiad - Gorffennaf y 15fed - pan fydd Ysgol Llanwenog yn Dathlu 150 o flynyddoedd ers ei sefydlu ac yn cau ei drysau am y tro olaf. Bydd yna ddiwrnod i'w gofio gydag adloniant amrywiol gan y plant ac aelodau'r Clwb Ffermwyr Ifanc. Dewch yn llw erbyn 2 o'r gloch i fwynhau clonc, gweld hen ffrindiau ac i edrych ar arddangosfa helaeth o hen luniau. Diolch yn fawr iawn i'r unigolion hynny sydd wedi rhoi o'u hamser prysur i helpu gyda'r trefniadau. Edrychwn ymlaen i'ch gweld, croeso cynnes i bawb.

Diolch yn fawr i Jack Rees am ddod i gynnal sesiynau rygbi yn ystod y tymor. A llongyfarchiadau mawr iddo ar dderbyn swydd newydd yn Ysgol y Strade Llanelli. Pob dymuniad da iddo.

Bu Harri a Steffan Rivers a Teifi Edwards yn brysur yn chwarae pêl droed yn ystod y mis a buont yn cystadlu fel tîm Dyffryn Cledlyn yng nghystadlaethau 6 bob ochr Tregaron a Charreg Hirfaen. Gwnaethant yn dda iawn ar y ddau achlusr.

Diolch enfawr i Stacey Burgess, sef myfyrwraig o Goleg Credigion,

sydd wedi bod gyda ni ar brofiad gwaith yn ystod y ddau dymor diwethaf. Mae wedi bod yn bleser rhoi cyfle iddi ddatblygu ei sgiliau ac mae wedi bod o gymorth mawr. Diolch yn fawr iawn a phob lwc yn y dyfodol.

Aeth pedwar disgybl anturus ar ymweliad preswyl i Ganolfan yr Urdd Caerdydd. Bu Elen, Teleri, Harri a Hannah yn mwynhau ymweliadau â'r Mint Brenhinol yn Llantrisant, nofio yn yr LC2, Stadiwm Liberty, Techniquet ymysg llawer o weithgareddau eraill. Cafodd y pedwarawd amser gwych ac roedd sawl un wedi blino'n lân erbyn nos Wener. Da iawn chi. Diolch i Mr Ebbsworth, Mrs Enfys Morgan a Miss Sirian am roi eu hamser i drefnu ac i ofalu am y disgyblion

Hoffem fel ysgol ddiolch yn fawr iawn i Mrs Eleri Cwc Davies a Mrs Enfys Morgan a fydd yn ymddeol ac yn ymadael ag ysgol Llanwenog ddiwedd y tymor. Mae cyfraniad y ddwy wedi bod yn amhriiadwy. Mae cannoedd o blant wedi derbyn prydau bwyd amheuthun gan Eleri yn ystod y blynyddoedd ac mae sôn am gegin fach ysgol Llanwenog ar hyd a lled y sir. Yn yr un modd mae gwaith trefnu, addysgu a chefnogi Mrs. Morgan wedi bod yn rhan allweddol o'r ysgol yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Diolch enfawr i'r ddwy. Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad yn fawr iawn. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

Pob hwyl ac edrychwn ymlaen i'ch gweld i gyd ddydd Sadwrn y 15fed am ddau o'r gloch.

HUFEN, MEFUS A CHÂN
CÔR MEIBION CWMANN
A'R CYLCH

CLWB BOWLIO
LLANBEDR PONT STEFFAN
NOS WENER GORFFENAF 7
AM 7 O'R GLOCH

ELW I YMCHWIL CANER
DU a CHANOLFAN GYMREIG
YR ANDES YN ESQUEL
TOCYNNAU £5
[ODDI WRTH AELODAU]

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

9fed Medi 2017

Llywyddion: Mr & Mrs Cyril Davies, Brynteg.
Sioe, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Bar,
Bwyd, Hufen lla ac atyniadau eraill.



Arddangosfa Hen Beiriannau
a Thaith Tractorau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:

Danny Davies 423692, Wyn Jones 422511

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi *duvets*.



Graham Jones

Gwasanaethau
Cyfrifiaduron

- * Datrys Problemau a Trwsio
- * Ymweliadau Cartref
- * Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- * Pherifferolion Ar Werth
- * Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns
Emporium

Rhoddion Cymraeg
a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX

dawnsemporium

www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas
a'i Chwmni
Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

TYSTEB

Mae Mrs Eleri Cwc Davies a Mrs Enfys Morgan yn ymddeol o Ysgol Gynradd Gymorthedig Llanwenog ddiwedd tymor yr Haf 2017.

Fel gwerthfawrogiad o'u gwasanaeth i'r ysgol, trefnir tysteb i'w chyflwyno iddynt ar brynawn y 15fed o Orffennaf yn nhe parti dathliadau'r Ysgol am 2 o'r gloch..

Mae croeso i bawb ymuno â ni.

Cyfraniadau os dymunir i'r ysgol
erbyn Dydd Iau, y 13eg o Orffennaf 2017.

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i gynorthwyo
gyda gwaith Papur Bro Clonc a Gwefan Clonc360

Cysylltwch ag ysgrfennydd@clonc.co.uk

Beth am fod yn ohebydd neu'n olygydd?
Neu uwchlwytho fideos Cymraeg o ddigwyddiadau?

Hwb i'r galon

Weithiau, mi fydd ambell beth yn digwydd i godi calon. Ac mae digon o angen.

Yn nes at gartre' na'r digwyddiadau dychrynlyd sy'n cipio'r penawdau, mae'n gallu bod yn ddigalon weithiau.

Ambell ddiwrnod, mi fydda' i'n cerdded y stryd yn Llanbedd ac yn troi wrth glywed rhywun yn siarad Cymraeg, bron fel yr o'n i'n arfer ei wneud yn Wrecsam neu Gaerdydd erstalwm.

A finnau bellach yn byw yma ers 30 mlynedd, mae'r mewnlifiad o bobol o'r tu allan yn gryfach nag erioed a does dim arwydd y bydd yn peidio.

Yn hytrach, mae'n debyg o fynd yn waeth. Os bydd economi ardal Llundain yn dal i ffynnu, mi fydd gan fwy o bobol arian i'w wario yma ar dai cymharol rad; os bydd Brexit yn troi'n flêr, mi fydd rhagor o bobol am ddianc i rywle braf.

Felly, mi allwch chi ddeall pam fod angen hwb bach i'r galon. Ac mi ddaeth dau o fewn deuddydd i'w gilydd.

Y calondid cynta' ...

Y cynta' oedd diwrnod sialens Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog; nid fy mod i wedi gwneud dim byd mwy na cherdded ychydig tros dair milltir tra oedd rhai wedi nofio, seiclo, rhwyfo a rhedeg hefyd i gwblhau 60 milltir, un am bob blwyddyn o oedran y clwb.

Roedd dechrau'r darn cerdded wrth yr eglwys yn Llanwnnen yn bleser a'r ffordd ar y ddwy ochr yn llawn pobol ifanc – ac ambell un hŷn. Mi alla i ddychmygu bod ambell i ymwelydd neu newydd-ddyfodiad wedi cwyno, fel y gwnaethon nhw ym Mhen Llŷn rhyw dro, fod “y locals” yn cymryd drosodd.

Ymhen ychydig funudau, roedd llif o bobol mewn crysau-T gwyrdd yn ei gwneud hi i gyfeiriad Capel y Groes; llond ffordd o Gymraeg ac arwydd clir, hyd yn oed os ydi o dan bwysau, fod bywyd cymdeithasol yr ardal yn para'n gry'.

A'r ail ...

Y nos Lun wedyn y daeth yr hwb arall a finnau wedi mentro ymhell i'r de i eglwys Tregroes ger Llandysul ar gyfer lansio llyfr gan un o drigolion enwoca' ardal Clonc.

Un o'r mewnlifiad ydi hwn hefyd, ond yn wahanol iawn i'r rhan fwya' sy'n landio yma heb gymryd rhithyn o ddiddordeb yn ein hiaith na'n diwylliant ni.

Mae Kees Huysmans yn ddyn hynod – tipyn o Gees – a'r llyfr, Dechrau Canu Dechrau Wafflo yn ddathliad o'r berthynas rhyngddo fo a'i deulu a phentre bach a chymdogaeth yn Nyffryn Cerdin.

Er ei fod bellach yn byw yn Llanbedd, roedd hi'n naturiol mai yn Nhregroes yr oedd y lansio'n digwydd gan mai yn o y setlodd Kees Huysmans a'i deulu ac yn o y sefydlodd o'r busnes a ddaeth ag enwogrwydd yng Nghymru i waffls ac enwogrwydd i Dregroes trwy wledydd Prydain a thu hwnt.

Ei gamp arall, wrth gwrs, oedd enill gwobr y Rhuban Glas yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd ac, yn ystod y lansio, mi fu'r llais yn llenwi'r eglwys fach gyda'r un cynhesrwydd â golau'r haul trwy'r drysau a'r ffenestri.

Er mor dda oedd y canu, y calondid mawr oedd clywed Kees Huysmans yn siarad, yn uniongyrchol a di-lol ac yn atgyfnerthu'r hyn sydd yn y llyfr, golwg dyn sydd wedi dod i mewn o'r tu allan a gwerthfawrogi'r hyn a welodd o yn fwy nag yr yden ni.

Mi welodd amseroedd anodd a chael cysur mewn cymdogaeth glos, lle'r oedd pobol yn dal i helpu ei gilydd a gofalu am y naill a'r llall. Ei neges oedd, “Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cynnal hynna”.

Ac wedyn dysgu Cymraeg. Roedd yna gyfrifoldeb arnon ni, meddai, i helpu pobol i siarad yr iaith; peidio â throï i'r Saesneg ar y llithriad cynta' ond dyfalbarhau ac annog.

Mae yna sôn efallai y daw yna fersiwn Saesneg o'r llyfr hefyd ryw dro; os felly, mi fydd yna neges bwysig i fewnfudwyr eraill – bod cyfoeth i'w gael o ddod yn rhan o'r gymdeithas yma, yn hytrach na sefyll ar ei chyrion.

Ond rhaid i ninnau agor y drws.



Mis Gorffennaf - Mis yr Eirin Gwlanog

Un o'r pethau hynny sy'n dynodi'r Haf i mi yw'r pleser o gael mwynhau eirin gwlanog. Maent yn eu tymor o ddechrau'r Haf nes diwedd mis Awst, felly'r mis yma rwyf am gynnig casgliad o ryseitiau sydd yn gwneud y gorau o'r ffrwyth.

Maent yn addas ar gyfer ryseitiau melys a sawrus, ac yn llawn Fitamin A. Gwnewch y gorau ohonynt yn ystod y mis.

O'r gegin,
Gareth

Eirin gwlanog mewn gwin

Pwdin syml a soffistigedig!

½ potel gwin gwyn

1 brigyn sinamwn

1 llwy bwdin siwgrwr

4 eirin gwlanog

Hufen ia - i weini

Dull

1. Gosodwch y gwin, sinamwn a'r siwgrwr mewn sosban, a'i gynhesu i doddi'r siwgrwr. Yna i mewn â'r eirin a'u coginio am tua 20 munud.
2. Codwch yr eirin o'r hylif, tynnwch eu crwyn, a gosodwch mewn dysgl gyda'r surop, a'u gadael i oeri.
3. Gweinwch gyda hufen ia.

Pwdin Eirin Gwlanog

Twist ar y Treiffl

½ pecyn bisgedi 'boudoir'

2 llwy fwrdd gwirod Amaretto

6 eirin gwlanog

1 tun cwstard

½ peint hufen dwbwl

Tua 75 g bisgedi Amorettee

Ychydig coco

Dull

1. Gosodwch y bisgedi boudoir yng ngwaelod dysgl, a'u gwlychu â'r gwirod.
2. Torrwch yr eirin yn ddarnau a'u gosod yn y ddysgl
3. Curwch yr hufen, a phlygwch y cwstard iddo. Gwasgarwch dros y ffrwythau, a rhowch yn yr oergell i setio.
4. Malwch y bisgedi Amorettee. Sgeintiwch y coco dros y pwdin, ac yna'r briwson bisgedi dros y top.

Hwydaen gydag Eirin Gwlanog

Mae'n newid o'r oren

1 hwyaden

1 clwstwr o shibwns

Halen a phupur

4 eirin gwlanog, wedi eu torri'n 4 rhan

Tua 2 llwy fwrdd o fêl

Dull

1. Gosodwch yr hwydaen mewn tun, a'i rhostio am tua 2 awr. Gwres 180 C, 350 F, Nwy 4
2. Rhowch yr eirin, shibwns a'r mêl o amgylch yr hwyaden, a rhostiwch eto am 15 munud
3. Gweinwch y cig gyda'r eirin gwlanog a'r shibwns o amgylch. Mwynhewch gyda thatws newydd.

Tip tymhorol: Peidiwch â thaflu carreg yr eirin gwlanog. Plannwch ac fe gewch blanhigyn i'r tŷ am ddim!



Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru

Nid yw'r golygydd o
reidrwydd yn cytuno ag
unrhyw farn
yn y papur hwn.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Dyfarniad y Darllenydd

STORI RYFEDDOL Y MEWNFUDWR A SEFYDLODD Y CWMNI TREGROES WAFFLES

Yn y gyfrol 'Dechrau Canu, Dechrau Wafflo' ceir hanes Kees Huysmans, y canwr a'r dyn busnes llwyddiannus a symudodd o'r Iseldiroedd i gefn gwlad Cymru yn yr 1980au, gan fabwysiadu iaith a diwylliant Cymru, ynghyd â sefydlu cwmni Tregroes Waffles.

Mae'r cwmni wedi mynd o nerth i nerth erbyn hyn a bellach wedi llwyddo i ddwyn enw pentre Tregroes i enwogrwydd ar draws y byd.

Dechreuodd Kees ei yrfa gerddorol yn blentyn yng nghôr yr eglwys Gatholig yn yr Iseldiroedd ac ar ôl symud i Gymru fe'i cynghorwyd i ymuno â chôr lleol, yn bennaf er mwyn dysgu Cymraeg. Cafodd flas ar gystadlu mewn Eisteddfod ac yn 2016, llwyddodd i gipio'r Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni.

Bu'r profiad o ganu yn y côr yn ogystal â'r cyfle i sgwrsio gyda'r cwsmeriaid tu ôl i'w stondin yn y farchnad yn gyfrwng iddo ddatblygu ei ddefnydd o'r iaith.

Bellach mae'n medru'r Gymraeg yn rhugl ac yn ei defnyddio'n naturiol yn ei waith ac yn y gymdeithas.

Wedi gwneud ymdrech arbennig i goleddu'r holl arferion a'r traddodiadau a oedd yn perthyn i'r gymdeithas leol, fe werthfawrogodd y cymorth a dderbyniodd gan drigolion yr ardal pan wynebodd gyfnod tywyll yn ei fywyd fel y dengys yn ei lyfr.



'Mewn ffordd, mae'r llyfr hwn wedi rhoi cyfle i mi roi rhywbeth yn ôl i'r gymdeithas a phentref Tregroes lle'r wyf wedi byw am dros ddeng mlynedd ar hugain' eglurodd Kees.

O ganlyniad, bydd unrhyw elw o'r llyfr yn mynd yn syth tuag at y gost o adnewyddu'r hen ysgol i fod yn ganolfan i'r pentref a'r ardal gyfagos.

Meddai'r ymgyrchydd Emyr Llywelyn, 'Dyma lyfr diddorol a darllenadwy yn adrodd hanes dyn arbennig iawn, sef Kees Huysmans. Un o rinweddau mawr y gyfrol yw gonestrwydd a didwylledd yr awdur sy'n siŵr o gyffwrdd â phawb a fydd yn ei darllen.'

'Mae yma ddarlun unigryw o rinweddau cymdeithas wledig Gymraeg ei hiaith drwy lygaid mewnfudwr. Go brin y llwyddodd neb i adrodd stori ei fywyd mewn ffordd mor gofiadwy â'r canwr, y dyn busnes a'r Cardi mabwysiedig hwn.'

Mae 'Dechrau Canu, Dechrau Wafflo' gan Kees Huysmans (£9.99, Y Lolfa) ar gael yn awr.



Yn y lawnsiad cyflwynwyd rhannau o'r llyfr gan grŵp o actorion lleol. Cafwyd eitemau amrywiol, rhai yn ysgafn a difyr ac eraill yn cynnwys mwy o ddyfnder a threiddgarwch. Yn ystod y cyflwyniadau cafwyd datganiadau cerddorol amrywiol gan Kees, gydag Elonwy, ei wraig, yn cyfeilio. Canodd benillion 'Y Fedwen', gan T. Llew Jones i gyfeiliant telyn Helena Lewis a fu hefyd yn canu cerddoriaeth telyn yn y cefndir bob nos. Yn dilyn, cafwyd darlleniadau a thrafodaeth hwylus gan Emyr Llywelyn, Dylan Iorwerth a'r awdur ei hunan, Kees Huysmans.

Cwrtnewydd

Eisteddfodau

Ar ddiwedd mis Mai, bu Ela Mablen Griffiths-Jones, 2 Fronddu yn cystdlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd mewn tair cystadleuaeth. Cafodd Ela lwyfan ar y Llefaru Bl. 2 ac Iau a chafodd yr 2il safle. Da iawn ti Ela.

Bu hefyd yn cystadlu yng Ngŵyl Fawr Aberteifi ar ddechrau mis Gorffennaf. Cafodd sawl gwobr yno hefyd. Dal ati.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW

21 Stryd Fawr, Llanbedd
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
'Financial Conduct Authority'. Rhif cofrestru 615251.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr-coed, ffensiō
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**

Cefn Hafod



Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238



CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Pentrebach

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Heulyn a Jennie, Pantyderi ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith yn rhagor – Griff Ceredig, mab bach i Andrew a Meinir yn Drefach.

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Sioned Williams, Derwen Deg ar achlysur ei priodas allan yn Rhufain yn ddiweddar.

Cwmsychpant

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn ag Eleri, Andrew a Gari Evans, Gwelfryn, ar golli ewythr, sef Enoch, Felin Cletwr, Pontsian.

Cartref newydd

Pob dymuniad da i Lilwen Davies, Brynawel yn ei chartref newydd yn Llambled – bydd hi'n wag iawn yn Cwm hebddot!

Pencarreg

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Sian Elin, Muriau Gwyn am gael ei dewis yn un o ddeuddeg awdur ifanc o Gymru fydd yn cymryd her wrth sgriptio dramau ar gyfer Gŵyl Hanes 2018. Braint fawr iddi, ac mae'n edrych ymlaen yn fawr at y dasg. Bydd y sioeau yma'n cael eu perfformio ar draws ysgolion Cymru.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i'w chwaer, Manon Williams, am gael ei hethol yn ddirprwy brif ferch Ysgol Bro Pedr 2017-18. Mae'n edrych ymlaen yn fawr at gydweithio gyda'r swyddogion eraill!

Gwellhad Buan

Cafodd Mary, Pantfen driniaeth law feddygol yn ystod y mis – braf yw eich gweld gartref ac yn gwella'n dda.

Cellan

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Rob Thomas, Llain deg ar enedigaeth wyres fach - Anni Swyn. Merch fach i Llŷr a Rhian. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Alltyblaca

80oed

Yn ystod dechrau mis Gorffennaf dathlodd Mrs Jean Jones, Dorlan ei phen-blwydd arbennig yn 80oed. Iechyd da i chi eto, Jean, am flynyddoedd lawer. Mae Jean yn un o'r selogion sy'n dod i blygu Clonc yn Llambled bob mis.

Prawf gyrru

Llongyfarchiadau i Ryan Holmes, Llygaid yr Haul ar basio ei brawf gyrru yn ystod y mis. Cymer ofal ar y hewl.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Sam Lewis, Tegfryn yn teimlo'n well gan iddo dreulio peth amser yn yn yr ysbyty yn ystod y mis.

Cydymdeimlo

Danfwn ein cydymdeimlad llwyrat at Eirian Evans, Y Ddôl ar golli ei bartner, Kathy a fu farw yn ystod y mis.

Llanwnnen

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu y diweddar Sam Allen, Blaencrwsar a fu farw yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau i John a Flo Williams, Brynamlwg a fydd yn dathlu Priodas Ddiemwnt ar Orffennaf 9fed. Mwynhewch y diwrnod. Iechyd da i chi am flynyddoedd eto.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Mary Davies, Rhos y Coed yn gwella yn dilyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ystod y mis.

Prawf Gyrru

Yn ystod y mis pasiodd Twm Ebbsworth, Brynamlwg ei brawf gyrru. Pob dymuniad da i ti a chymer ofal ar yr hewl.

Sefydliad y Merched

Ar y 5ed o Fehefin cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol, ond llawn hwyl, yng nghwmni Siân Davies a Llinos Halgarth o Glinig Bach y Wlad. Dysgwyd llawer am ffyrdd amgen i wella problemau iechyd cyffredinol, er enghraifft bod yfed digonedd o lemonêd yn gallu chwalu cerrig ar yr arenau a bod yfed sudd pinafal yn gallu cael gwared ar systitis. Cyn diwedd y noson cynhaliwyd cyfarfod byr gydag Avril Jones yn llywyddu a beirniadodd Siân gystadleuaeth y mis, sef hoff esgid. Gosodwyd esgid Gwen Davies yn gyntaf, esgid Alice Davies yn ail ac esgid Mary Davies yn drydydd.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Alice Davies, Alwyn ben-blwydd arbennig ddechrau mis Gorffennaf. Gobeithio i chi fwynhau eich diwrnod.

Twrnament Pêl-droed



Cafodd tîmau pêl droed Llambled lwyddiant yn nhwrnament pêl droed Boncath. Enillodd y tîm dan 8 a'r tîm dan 10 eu categorïau perthnasol. Yn ogystal daeth llwyddiant personol i ddau chwaraewr o Lambed wrth i Dion Deacon Jones ennill chwaraewr y twrnament o dan 8, a Rhun Davies o dan 10.



Yr wythnos ganlynol enillodd y tîm dan 10 unwaith eto, y tro yma yn nhwrnament San Cler yn y gwynt a'r glaw!!



Enw: Tomos Gwenallt Jones
Oed: 31
Pentref: Cwmann
Gwaith: Ffarmwr
Partner: Elen Huana Powell
Teulu: Pat, Andrew, Owain a Morgan

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
 Mwynhau helpu ar y fferm gyda mam-gu a Martin, yn enwedig yn ystod wyna.
 Mynd ar wyliau Haf gyda theulu Llwyn a Llwyn ieir
 Mwynhau amser Nadolig yng Nghaerfaddon gyda teulu Mam!

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
 Gladiators, Poddington Peas, Smurfs, Rugrats, Neighbours etc

Yr eiliad o embaras mwyaf.
 Cwmpo oddi ar lifft sgïo - ar y top, tra ar drip ysgol yn Sweden.
 Y sgiwyr eraill wedyn yn cwmpo drosta i fel dominos!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
 Cwrteisi

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
 Cael mwy o ffydd yn fy ngallu. Joia bob profiad, yn hytrach na phoeni am bethau.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?
 Faith Hill – i'r cariad.

Pan oeddet yn blentyn, beth o't ti eisiau bod ar ôl tyfu?
 Ffarmwr neu gweithio gydag anifeiliaid.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
 Cael bonclust gan Gwen am roi bys yn y 'Victoria sponge' perffaith yr oedd hi wedi ei goginio ar gyfer Ffair Ram!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
 Bwyta pryd da o fwyd yn enwedig



lasagne Elen a mynd am dro gyda'r cŵn o amgylch y fferm.

Beth yw dy lysenw?
 Twm, Tom, Tommi Gun, Tomos Felindre

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
 Tebyg i Andy Murray yn ôl Owain, pan mae'r gwallt yn hir!

Pwy yw dy arwyr?
 Mufasa

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
 Mul – oherwydd fy mod yn un ystyfnig.

Beth yw dy arbenigedd?
 Gofalu am anifeiliaid.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
 Rhyddid i wneud beth dwi eisiau, pryd dwi eisiau. Amrywiaeth o ddydd i ddydd o fewn trefn fferm odro.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
 Gaeaf hir!

Y peth gorau am yr ardal hon?
 Y gymuned.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
 Cymraeg

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
 Deddf i ddatrys sefyllfa TB yng Nghymru unwaith ac am byth

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
 Allen i byth!

Pryd lefaist ti ddiwethaf?
 Llefen chwerthin ar straeon Rhys Barrells yn Hamburg.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
 Ar ôl dathlu fy mhen-blwydd yn 30! Diolch Eirian, Gareth a Tristan!

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
 Pwy ddiwrnod yn cwrso defaid duon Elen!

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
 Sied Felindre yn y gwair, ar ôl i Elen fynd â'r allwedd gyda hi ar noson allan!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
 Ennill ceiliog gorau Cymru yn 1999 er bod y teitl Saesneg yn swno'n llawer gwell.

Ac yn bersonol?
 Ennill chwaraewr y tymor yn fy nhymor olaf gyda tîm ieuenctid Rygbi yn Llambed.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?
 Dŵr twym 'da lemwn peth cyntaf yn y bore a dau neu dri peint o laeth yn ystod y dydd.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
 Gwaith dydd i ddydd ar y fferm

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
 Ca' dy ben a byta dy fwyd – Tegs Ysgol Coedmor.

Y gwyliau gorau?
 Teithio'r byd am 7 mis, ymwelais â 13 o wledydd gydag Elen. Profi Eisteddfod ym Mhatagonia, Machu Pichu, Igguazu Falls, Nadolig yn Fiji a'r flwyddyn newydd yn Sydney. A theithio drwy Asia i gloi'r daith.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
 Cyfeiriad _____
 Cod post _____
 Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
 I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

5		1				4
			8			
4	6			3	1	5
9	2		1			3
	4					8
		5		6		2 9
	5		2	7		3 6
				3		
9					4	1

Swdocw Mehefin:

Llongyfarchiadau i **Dai Jones, Llwynyreos, Alltbylaca** a diolch i'r canlynol am gystadlu:
 Bethan Williams,
 Neuadd Fryn,
 Llanybydder a
 Glenys Davies,
 Gelli Aur,
 Llanybydder.

2	8	1	7	9	3	5	4	6
6	9	4	5	2	8	1	3	7
7	3	5	1	6	4	2	9	8
5	7	6	3	1	9	4	8	2
8	4	3	6	7	2	9	1	5
1	2	9	8	4	5	7	6	3
9	6	7	2	8	1	3	5	4
4	5	2	9	3	6	8	7	1
3	1	8	4	5	7	6	2	9

CLONC CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu yr arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST: RHIF FFÔN:



ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chwi / to your bank] Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code: Rhif cyfrif: 03451526

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

Taler / Please pay Nat West, Llambled 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif: 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orffennaf 2017
1st July 2017

Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af
Thereafter annually on 1st July

nes y derbyniwch rybydd pellach gennyf drwy lythyr / until you receive further notice me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no: Llofnod / Signature:


LAS Recycling Ltd



Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach
Am wasnaeth cost effeithiol a
dibynadwy ar gyfer eich holl
anghenion gwastraff cysylltwch â
ni ar: 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambled, Ceredigion, SA48 8LT

Gwasanaeth biniau ar olwynion NEWYDD
(1100L, 660L a 240L)



**ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtcadno



Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestoring.com

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

ANDREW JAMES PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Carnifal Llanybydder

Bu wythnos Carnifal Llanybydder yn un lwyddiannus iawn. Nos Sul 18fed Mehefin yn Ysgol Gynradd Llanybydder, gwnaeth Pwyllgor Pentref Llanybydder gynnal Cyngerdd Ieuencid yr Ardal i ddechrau wythnos y Carnifal.

Yr oedd yn noson lwyddiannus iawn gyda'r noson yn dechrau â phlant Ysgol Feithrin Llanybydder yn canu yn dda iawn. Nesaf roedd Hana a Sioned Fflur o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog, Alpha Evans ar y piano ac Elin Hughes yn canu'n hardd iawn. Hefyd yr oedd plant Ysgol Llanybydder yn canu ac adrodd yn dda iawn. Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan a diolch i'r rhai wnaeth ddod i wyllo a chefnogi.

Cynhaliwyd Helfa Drysor mewn car nos Lun 19eg Mehefin. Diolch i Heulwen Williams, Louise Mckee ac Helen Williams am y trefnu a da iawn Gareth Williams, Andrew Williams, Dafydd a Lois Williams am ennill.

Yn dilyn yr oedd nosweth Bingo wedi'i chynnal yn y Clwb Rygbi. Diolch i bawb a wnaeth helpu trefnu'r nosweth lwyddiannus hon.

Ar y nos Fercher yr oedd yr Helfa Drysor Cerdded. Diolch i Sian Davies a Bethan Williams am drefnu nosweth bleserus iawn. Da iawn Heulwen Williams a Louise Mckee am ennill. Hefyd Meinir Williams, Helen Williams a Siona Evans a Rhodri Cope a ddaeth yn gydradd ail.



I gwbwlhau'r wythnos cyn y diwrnod mawr roedd nosweth y cwis. Diolch i Adrian 'Dodo' Thomas am drefnu'r cwis a chael digon o bobol i feddwl a chrafu pen! Llongyfarchiadau i 'Quiz Team Aguilera' sef Dai Williams, Stuart Brown, Gareth Williams ac Andrew Williams, am ennill â 154 pwynt allan o 275 [gweler llun]. Yn ail daeth 'Ladies and the Tramp' â 151 pwynt, ac yn 3ydd roedd 'Restaurant 62' â 130 pwynt.

Brynhawn dydd Sadwrn 24ydd o Fehefin fe wnaeth Pwyllgor Pentref Llanybydder drefnu Carnifal Blynnyddol Llanybydder yn y cae rygbi.

Y Frenhines oedd Nia Davies, y Morwynion oedd Adele Rees a Sara Davies, y Dylwythen Deg oedd Lily Mumford a'r Tywysog oedd Taylor Rees. Yr oedd pawb yn edrych yn

brydferth iawn a chafwyd diwrnod hyfryd.

Llywyddion y dydd oedd Mr Eryl Jones a Miss Eleri Davies a chawson nhw ddiwrnod hwylus tu hwnt yn beirniadu'r cystadlaethau.

Yr oedd yna 3 fflot arbennig o dda yn cystadlu 'leni a'r thema oedd 'Cymru'. Aeth y wobr gyntaf i Tipi Valley, yr ail i Mart Evans Bros a'r trydydd i Stereophonics.

Enillwyr y Carnifal oedd y canlynol: Pâr Gorau- 1af Jac y Jwc a Sali Mali, Cawl a Chân sef Gari a Nia Jones ac yn 3ydd Tony ac Aloma, sef Betty Draycott a Helen Draycott Evendon. Dan 2 flwydd oed: 1af Dylan Thomas sef Sophie Benson, yn ail oedd Tecwyn y Tractor sef Cadi Ann Cope ac yn 3ydd oedd Eisteddfod sef Betsan Lloyd. 3-5 mlwydd oed: 1af y Welsh Whisperer sef Owain Dyer, yn ail oedd Hybu Cig Cymraeg

Y Frenhines oedd Nia Davies, y Morwynion oedd Adele Rees a Sara Davies, y Dylwythen Deg oedd Lily Mumford a'r Tywysog oedd Taylor Rees.

sef Pryd Jones ac yn 3ydd Shirley Bassey. 6-10 mlwydd oed daeth Barti Ddu sef Dion Jacobs yn 1af, Kelly Jones o Stereophonics yn ail sef Caio Benson a'r Ddraig Goch sef Amy Rees yn 3ydd. 11-15 mlwydd oed- 1af Gareth Davies sef Jamie Jones, 2ail Catherine Zeta Jones sef Mili Bonning ac yn 3ydd roedd Mam Tomi sef Elaine Williams. 16+: 1af Nessa sef Katy Baker, Catherine Jenkins sef Helen Draycott Evendon ac yn 3ydd Cawl Cymreig sef Gary Jones. Cerbyd Gorau: 1af Tecwyn y Tractor sef Cadi Ann Cope, 2ail Barti Ddu sef Dion Jacob ac yn 3ydd oedd Iori Mansel Davies sef Owain Dyer.

Rhodddwyd cwpan enillydd y Carnifal am 2017 gan Bethan Williams a'r enillydd oedd Gareth Davies sef Jamie Jones [llun isod]. Cafodd sash y 'Carnival Hunk' ei roi i Dave Doughty a'r 'Glamorous Granny' i Bethan Williams. Llongyfarchiadau i bawb am eu hymdrech, yr oedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn gyda'r tywydd ar ein hochor ac yn dal yn sych.



Hoffai Pwyllgor Pentref Llanybydder ddiolch i bawb a wnaeth gymryd rhan ac i bawb a wnaeth ddod i gefnogi'r Carnifal. Heb eu cefnogaeth byddai'r Pwyllgor yn methu â threfnu'r holl digwyddiadau i'r pentref, yn enwedig y trip blynnyddol. Diolch eto.





Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel shw mae? Wel mae'r haul yn dechrau dod allan i'n gweld ni ac mae'r blodau yn yr ardd yn tyfu'n dda. Gobeithio os fydd yr haul yn parhau y cawn ni gyfle i fynd i'r traeth i adeiladu cestyll tywod a nofio yn y môr. Ond cofiwch blant pan fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth, mae'n rhaid bod yn ofalus iawn a gwrando ar oedolyn. Cofiwch wisgo eli haul, het a sbectol haul er mwyn gwneud yn siwr nad ydych yn llosgi. Rhaid cofio hefyd i beidio mynd yn bell o olwg oedolion. Ond yn bwysicach oll, rhaid cofio i fwynhau yng nghanol y tywod.

Wel cefais lu o luniau drwy'r post a phawb wedi bod yn brysur yn lliwio'n lliwgar a thaclus. Roeddwn yn hoff iawn o lun Angharad Davies o Brynteg, Dion Siencyn o Drefach, Elin Pugh o Aberystwyth, Gwenno Ruth Jones o Lanarth, Ceris Gateley o Lanbedr Pont Steffan ac Anna Siencyn o Drefach. Ond y llun sy'n dod i'r brig yw un Fflur Morgan, Rhydyfelin, Drefach. Da iawn chi a llongyfarchiadau i ti Fflur!

Wel dwi'n edrych ymlaen i wyliau'r haf er mwyn mynd am dro i draeth Cei Bach i fola heulo ac adeiladu cestyll tywod. Fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth? Ble mae'ch hoff draeth chi? Wel beth am fynd ati i liwio llun o'r diwrnod ar y traeth a'i ddychwelyd ataf cyn dydd Gwener, Awst 25ain.



Fflur
Morgan

Enillydd
y mis!

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



CWRT MALE (95)

Mae CWRT MALE nid nepell o bentref Llangain. Yn yr achos hwn mae'r elfen 'cwr't' yn cyfeirio at dir sydd wedi ei amgáu gan ffos. Mae'r ffos ei hun wedi hen ddiflannu o olwg llygad ynghyd â phob cof amdani. Ond mae awyrluniau wedi datgelu ei bodolaeth. Byddai'r ffos yn ddofn ac wedi ei llenwi â dŵr er mwyn amddiffyn yr eiddo o'i mewn. Roedd yn estyn dros 60m sgwar. Unwaith eto mae tystiolaeth awyrluniau yn datgelu olion tebygol y ffrwd oedd yn arwain y dŵr i'r ffos ac yn dychwelyd y gorlif i'r nant gerllaw.



LLAN-GAIN

Yn ôl traddodiad roedd Cain un o'r pedair merch ar hugain a briodolir i Brychan Brycheiniog. Mae'n bosibl bod Ceinwen a Ceinwry yn enwau eraill arni.

CAE BRAL

Ceir cae o'r enw hwn ym mhlwyf Llanwenog ac un a aned yn y plwyf hwnnw a ofynnodd imi drafod yr enw. Mae 'bral' yn cael ei ddefnyddio mewn ymadroddion ar draws gorllewin Cymru i ddynodi cerpin neu hen ddilledyn neu ddilledyn treuliedig. Gall gyfeirio, yn ogystal, at ragamwffin o berson neu berson diwerth neu benchwiban. Difriol yw ymadrodd megis 'brelun o ddyn'. Wrth gyfeirio at dir mae'n dynodi 'darn diwerth o dir'.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru
enwaulleoedd@gmail.com

Mae'r safle hynafol ym mhlwyf Llangynog a'r nant (Nant Cwr't Male) a fyddai'n derbyn y gorlif yn ffurfio'r ffin â phlwyf cyffiniol Llan-gain. Byddai neuadd ynghyd ag adeiladau atodol ar y tir a oedd wedi'i amgáu. Byddai gwrthglawdd o bridd ar y safle a ffens uchel o bolion ar ben hwnnw er mwyn amddiffyn yr eiddo. Ychydig dros ganllath o'r safle hynafol hon mae fferm laeth sylweddol sy'n dwyn yr un enw sef CWRT MALE.

Mae'n debygol mai'r person sy'n cael ei goffâu yn ail elfen yr enw yw Robert de Malley a wnaed yn ddirprwy brif ustus De Cymru (dan Robert Mortimer) yn 1309. Byddai wedi bod yn gartref cyfleus iddo yn ystod cyfnod ei wasanaeth yng Nghastell Caerfyrddin. Gwyddom iddo yn 1310 gynnal Ymholiad i rodd o dir yn Llanllwni a wnaed i Briordy Caerfyrddin a hawliau enwebu (advowson) ar gyfer yr eglwys.

Mae'r enw Court Malle yn ymddangos yn enw ar gae ger Forlan ar restrau degwm Llangain.

Mabolgampau Ysgolion y Cylch



Enillydd tarian goffa Stephen Sutcliffe am y bachgen gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau ym Mabolgampau Cwrtnewydd oedd Jac Rees ac enillodd Luned Jones darian goffa Ieuan Jones am y ferch gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau.



Enillwyr y medalau am y pwyntiau uchaf yng Nghyfnod Allweddol 2 Ysgol Carreg Hirfaen oedd Casi Gregson ac Osian Elis Roberts.



Vince Mason a Faye Jones yn cipio tlysau Mabolgampwr a Mabolgampwraig y flwyddyn ym mabolgampau Ysgol Bro Pedr.



Enillwyr y medalau am y pwyntiau uchaf ym Mabolgampau Ysgol Carreg Hirfaen - Cyfnod Sylfaen oedd Ifan Jones, Isaac Davies, Lilybet Cousinne a Jay Williams.



Llongyfarchiadau i'r plant i gyd am gystadlu ym Mabolgampau Ysgol Llanybydder a'r tîm melyn a oedd yn fuddugol yn y diwedd.

Chwarae yn Chelsea



Cyflwynwyd tlysau Mabolgampau Ysgol Llanwenog gan Eleri y gogyddes i'r unigolion gorau yn ystod y dydd. Pencampwraig y Cyfnod Sylfaen oedd Fflur Morgan, yn yr ail safle roedd Llywelyn Gregson ac yn gydradd drydydd roedd Erin Potter Jones ac Ethan Rees.

Yng nghystadleuaeth y Plant Iau, Harri Rivers oedd y pencampwr ac yn ail roedd Elin Lloyd ac aeth y drydedd wobwr i Hannah Aynonadu.



Braint oedd cael tri aelod o dîm pêl-droed dan 10 Llambled sydd hefyd yn chwarae i dîm academi Caerfyrddin yn rhan o'r ddau dîm a gyrhaeddodd y rownd derfynol mewn twrnament yn Chelsea! Da iawn Rhun Davies, Tomos Lloyd Jones a Llŷr Jones. Profiad arbennig i'r tri.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llanbedr, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogytal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw i'w gadael i'w gadael mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

CYNGERDD MAWREDDOG



i ddathlu

50 oed



**Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen
Llanbedr Pont Steffan**

**7:30pm, Nos Sadwrn, Medi 16eg, 2017
yn Theatr Felinfach**

yng nghwmni:

**Côr Merched Canna
Steffan Rhys Hughes
Charlie Lovell-Jones**

**Tocynnau
ar werth
NAWR!!**

Oedolion £10

Plant Ysgol £5

Tocynnau ar gael o'r theatr:

01570 470697

www.theatrfelinfach.cymru



**Angen cludiant
i gael mynediad
i waith,
hyfforddiant,
addysg, gofal
iechyd, siopa
neu gyfarfod â
ffrindiau a
theulu?**

**Gall Bwcabus
eich cludo yno!**

Gwasanaeth yn gweithredu
o ddydd Llun i ddydd
Sadwrn o 7am - 7pm

Llinell archebu ar agor 7
diwrnod yr wythnos o 7am -
7pm

01239 801601

617 Bwlchfadfa - Llanbedr Pont Steffan Drwy Talgarreg - Gorsgoch Dydd Mawrth yn unig

am/pm	am
Rhydowen, Alltrodyn Arms	10.10
Pont-sian, gyf Neuadd	10.12
Bwlchfadfa, gyferbyn lloches	10.20
Talgarreg, Neuadd	10.23
Gorsgoch, Neuadd	10.31
Cwrt-newydd, gyf Llew Goch	10.35
Drefach, cofeb	10.40
Llanybydder, Cwm Aur	10.48
Llanwnnen, gyf Bro Grannell	10.57
Llanbedr Pont Steffan, Nat West	11.03
am/pm	pm
Llanbedr Pont Steffan, Llew Du	1.45
Llanwnnen, Bro Grannell	1.51
Alltlyblacca, Chapel House	1.54
Llanybydder, Cwm Aur	2.00
Drefach, croesffordd	2.08
Cwrt-newydd, Llew Goch	2.13
Gorsgoch, gyferbyn Neuadd	2.17
Talgarreg, gyferbyn Neuadd	2.25
Bwlchfadfa, lloches	2.28
Pontsian, Neuadd	2.36
Rhydowen, gyf Alltrodyn Arms	2.38

618 Talsarn - Llanbedr Pont Steffan Drwy Bwlchyllan - Silian Dydd Mawrth yn unig

am/pm	am
Talsarn, gyf Maes Aeron	9.40
Bwlch-llan, Capel	9.48
Llangeitho, sgwar	9.57
Silian, lloches	10.22
Llanbedr Pont Steffan, Llew Du	10.30
am/pm	pm
Llanbedr Pont Steffan, Nat West	12.50
Silian, lloches	12.57
Llangeitho, sgwar	1.19
Bwlch-llan, lloches	1.27
Talsarn, Maes Aeron	1.34

**Mae Bwcabus yn rhoi mwy
o hyblygrwydd a chyfleoedd
i deithio rhwng trefi a
phentrefi lleol drwy
ddefnyddio siwrneiau a
archebir ymlaen llaw a/neu
wasanaethau amserlen
sefydlog.**

Ffoniwch 01239 801 601.



University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

